
# SOTHACH

Rhif 47
Rhagfyr - Ionawr
1992 - 1993



JESS YN DINOETHI AR Y TRAETH

BOB DELYN
BEAJ ISKIS

A5 Y FFORDD
FFA COFFI PAWB

RHIFYN DWBWL GWAHANOL

£1.00
PUNT

...yn ffrwydro yn y flwyddyn newydd
label Semtexx...

# PELDROED

## GYDA GWILYM BOORE

'Coron gwlad ei bencampwriaeth pêl-droed ei hun' meddai rhai ond er bod timau wedi dechrau brwydro am bencampwriaeth Konica. Mae'r drwg deimlad am y ffordd y gorfodwyd timau fel Caernarfon a Casnewydd yn parhau. I'r Clybiau a benderfynwyd gamblo a chymryd rhan mewn cystadleuaeth genedlaethol (a gambl oedd e i bob un clwb) mae'r siom wedi bod ar yr ochr orau. Safon y pêl-droed yn uwch na'r disgwyl, torfeydd uwch na'r disgwyl, torfeydd iach a nawddogaeth yn helpu i oresgyn y problemau ariannol disgwyliedig. Ac nawr mae Clwb Peldroed Dinas Caerdydd, yn ffurf y rheolwr ariannol Rick Wright, yn meddwl yn ddwys am gymryd rhan y tymor nesaf a gadael cynghrair Lloegr fel rhan o'r broses.

Dwi'n freintiedig i fod yn gefnogwr o'r Adar Glas ac yn wahanol i'r mwyafrif o'm cyd-gefnogwyr dydw i ddim mor ffroenuchel i ystyried y Konica fel joc sal. Dyna'r broblem oherwydd yn y bon rhagrithiwr ydw i. Mae'n hawdd fod yn gefnogol i gynghrair ond ar yr amod bod fy nhim i yn parhau i chwarae yn Lloegr. Mae'r rhesymeg tu ol i'r bygythiad i adael cynghrair Lloegr yn syml; bydd Caerdydd yn ennill cynghrair Cymru yn hawdd ac yn derbyn y wobr sylweddol o chwarae ym mhrif gystadleuaeth clybiau Ewrop a'r £30,000 sydd ynghlwm a'r wobr. Wedyn, am weddill y tymor gall trigolion y brifddinas edrych ymlaen i gemau rheolaidd yn erbyn Leeds, Barcelona, Milan a Marseille. Yn anffodus mae'r gwirionedd yn dra wahanol, pe bai'r clwb yn medru cynnal tim proffesiynol ac ennill y bencampwriaeth y tebygrwydd yw bydd 'booby prize' drud yn aros amdanyn ni. Gem heb rhamant, ond gyda treuliau uchel, yn erbyn pencampwyr Norwy sy'n berchen tim gyda'r dawn i guro Caerdydd ond heb ser rhyngwladol i ddenu torf i Barc Ninian. Wrth golli yn y rownd gyntaf bydd Caerdydd yn methu ar y cyfle i gyrraedd rowndiau lle mae'r arian go iawn a'r clybiau mawr yn bodoli.

Ar wahan i'r realiti am Ewrop mae ambell bwynt arall i ystyried. Raison D'Etre Dinas Caerdydd i fi yw curo clybiau Lloegr. (Does neb yn gallu gwadu ein bod ni wedi curo cewri Arsenal ym 1927). Ennill Cwpan Lloegr ac er bod yr 20 mlynedd diwethaf wedi bod yn siomedig byddai bywyd yn wag heb y cyfle i drechu clybiau Lloegr, boed Scunthorpe neu Spurs. Coeliwch i fi mae cefnogwyr clybiau Lloegr yn ffeindio'n anodd derbyn canlyniad drwg yn erbyn 'sheepshaggers'. Mae'n cliche erbyn hyn ond Caerdydd yw clwb mwyaf Cymru efo'r potensial mwyaf ac felly dwi'n gweld lle i Wrecsam, Abertawe a Merthyr yng Nghynhrair Cymru. Mae Merthyr, er eu bod nhw wedi gweiddi'n groch llynedd, eisoes yn ystyried cymryd y cam o adael y Vauxhall Conference.

A fyddai'r gynghrair yn elwa a bresenoldeb Dinas Caerdydd? Mae'r Konica yn ffynny gan mai cystadleuaeth yw e. 'Tase Caerdydd, fel sy'n cael ei grybwyll, yn chwarae fel tim proffesiynol (er mae'n amheus os ydynt yn gwneud ar hyn o bryd!). Dyna fydd diwedd ar y gystadleuaeth. Os am derfynnu y diddodeb sy'n bodoli ac yn tyfu gadewch i un clwb, fel Rangers yn Yr Alban, ddefnyddio'i rym i ennill y bencampwriaeth flwyddyn ar ol blwyddyn, ar ol blwyddyn. Cofiwch mae Rangers yn enwog am yr arian sydd ganddynt, ei goruchafiaeth yn yr Alban a'r ffaith bod ei record yn Ewrop ers iddyn nhw bod mor rymus yn yr Alban, yn crap.

Yr ateb mwyaf deniadol i fi yw gadael y gynghrair i ddatblygu yn feithrinfa i brif clwb Cymru ac yn y pendraw i dim cenedlaethol Cymru, byddai presenoldeb ail-dim Caerdydd yn hwb i'r gynghrair oherwydd y sbri sy'n perthyn i enw'r clwb (ac mae aelodau'r Konica yn ysu am gemau gyfeillgar yn ein herbyn), yn elfen gystadleuol ychwanegol, ac wrth gwrs mae penwythnos yn Aberystwyth, Bangor neu Porthmadog yn fwy deniadol na diwrnod yn Halifax, Carlisle, neu Darlington. Ysgrifennwch at Alun Evans gan erfyn arno i dwyn perswad a'r pennaethiau UEFA.

## C • Y • N • N • W • Y • S


**10.** SWN - LOT

**14.** FFA COFFI PAWB -CYFWELIAD ARALL

**17.** JESS - YN GIGNOETH

**22.** A5 -Y FFORDD

**26.** BOB DELYN A'R EBILLION -BEAJ ISKIS


**Y GORNEL GLASUROL**

## Steve Eaves a'i Driawd - Sbectol Dywyll / Plant Pobl Eraill

Tybed oedd mr. Eaves yn ymwybodol pan yn creu dwy glasur eu bod yn cyd redeg ac yn creu bron iawn cyfres gonsept i gyd redeg a phynciau y dydd. Mae'r awyrgylch a greir gan 'Hydref Eto' yn lesmeriol ac yn creu hyfrydwch meddyliol na theimlwyd gan yr un enaid byw cyn hyn. Mae'r gytgan yn tynnu blew o drwyn unrhyw gerddor Cymraeg arall. Mae'r safon yma yn dangos dawn Steve Eaves sy'n ymylu ar fod yn gyfansoddwr cystal a Meic Stevens. Ail agos. "Wna i byth ffeirio'r bwgi am y gan ara' deg" meddai Eaves, yn palu clwyddau. I gloi y tap mae'r ffefrun di flewyn ar dafod, 'Nigger Boi, John Boi, Cymro.' Y gwir yn erbyn y byd a swn miwsig ar y gwynt. Does yna yr un grwp yn y byd sydd wedi cyhoeddi can debyg i 'Rhywun' sydd yn sanctaidd llythrennol o gan. Mae'r geiriau cyfateb wedi eu dwyn o Ganiad Solomon tra fod y geiriau eu hunain yn hen benillion o'r ddeunawfed ganrif - hyfryd.

'Roedd 'Plant Pobl Eraill' yn fater arall. Gyda perfformiad bendigedig Theatr Bara Caws, Io To a Twrci, daeth y record 'roedd y triawd wedi ei fygwth ers blynyddoedd. Perl o lp sydd yn cylchdroi o amgylch hanesion y digartref. Gellid dweud efallai fod 'Siwgwr Aur' ychydig yn sentimental, ond mae caneuon y Fureys yn sentimental (yn ol Now Now), ond dyw hynny ddim yn tynnu dim oddiar y glasur gignoeth hon. Mae llais Eaves yn well nag erioed o'r blaen ar Wedi Mynd sydd yn symud ar wib fel petai yn bownsio o un pen i'r llall. Ni Ein Hunain Yr Unig sydd nesaf sy'n dwyn symbyliad yr Affrig o Rhywun ac yn creu delweddau hyfryd allan o'r diffyg geiriau a'r harmoniau swynol gwyntog. Mae Be Weli Di, Del? yn atgoffa rhywun o ganeuon walzaidd y tridegau gyda'i alaw Wyddelig syml ei naws. Y glasur mwyaf pwerus ar y tap heb os yw Wyn Bach Iesu Grist sydd yn creu gwefrau di-derfyn lawr fy asgwrn cefn i. Mae'n nodweddiadol o un o ganeuon Lou Reed gyda'r "coloured girls" yn mynd Dw dw dw dwdwdw etc. a Steve yn arddangos ei ddawn geiriol hanner llafarog, hanner canu. Hyfryd.

Dydy Steve Eaves ddim yn un enwog am glodfori eu hun a gwthio ei wasanaeth, ond yma y sylweddolais nad oes angen iddo wneud hynny, clasur ar ol clasur.

**Hen Rebel Fel Fi**

**BARN Y BOBL**

### *Tyfwch Fwy o Pot?*

Os yden ni o ddifri am achub y byd, achub yr haen ozone a'n rhyddid i weithredu dros yr amgylchedd, mi ddylem ni ddechrau drwy dalu'r holl ffermwyr coco yn Ne'r Amerig a'r holl weithwyr di-waith ar draws y byd i dyfu mwy o pot. Pam? Ydech chi'n barod?...

Cyn yr ugeinfed ganrif y planhigyn Marijuana oedd yn creu bron i holl bapur y byd, dillad y byd i gyd, y tecstiliau oll, a bron i holl raffau y byd. Yn ôl Adran Amaeth llywodraeth yr Amerig, gallwch wneud bedair gwaith mwy o bapur allan o un erw o blanhigyn hemp marijuana nag y gallwch allan o erw o goed. Ac yn hytrach na llenwi tiroedd y byd gyda choed na wnaiff ail-dyfu am flynyddoedd a gadael anialwch diffaith ar eu hol, os y gwnewch hyn gyda phlanhigyn hemp gallwch dyfu crop arall ymhen ychydig fisoedd a gwneud mwy o bapur, - am chwarter y pris o wneud papur allan o bwlp coed, a dim ond pumed rhan o'r llygredd. 'Roedd y Rhufeinwyr ers talwm yn gwybod hyn oll ac yn ei dyfu. Gorfododd Henri VIII bob ffarmwr ym Mhrydain i dyfu ei ran. Oherwydd roedd yr hen Saeson yn gwybod os oeddech chi eisiau y ffibr cryfaf bosibl y cwbl oedd yn rhaid ei wneud oedd gwneud eich rhan i'r brenin a tyfu mwy o pot. Ac mi wnaethon nhw hefyd! Dyfalwch allan o beth yr oedd Levis jeans yn cael eu gwneud ar y dechrau! A gesiwch allan o beth oedd baneri Prydain a'r Amerig yn cael eu gwneud ers talwm (a nid cotwm oedd o ficar!!!). A wyddoch chi am yr holl ddeddfau hynny basiwyd gan ein senedd ganrif yn ôl? Wyddoch chi allan o beth wnaethpwyd y papur a ddefnyddiwyd i roi'r deddfau arno? Ac os nad ydy hynny yn ddigon Cristnogol i chi, gesiwch pa ddefnydd ddefnyddiwyd i greu'r papur a wnaeth y beibl?

Wyddoch chi beth allwch chi ddefnyddio i yrru eich car? Medrwch gael pedair gwaith gymaint o cellulose i wneud methanol ag y gallwch allan o geirch, a gyda pwer yr haul fyddai yn ffordd wych o beidio marw dros olew yn Saudi Arabia. Yn yr 20au a'r 30au 'roedd gan y rhan fwyaf o geir a pheiriannau'r Amerig yr opsiwn o redeg ar betrol neu ar methanol. Hyd heddiw mae y rhan fwyaf o geir rasio yn rhedeg ar fethanol.

'Roedd George Washington a Thomas Jefferson yn tyfu cannabis ar eu ffermydd - ac mi roedden nhw yn ei ysmygu! Yn y 1760au yn yr Amerig mi fedrech gael eich carcharu am beidio tyfu pot, gan mai dyma oedd yr allwedd i fod yn economaidd annibynol oddiwrth Prydain. 'Roedd hemp yn arian dilys (legal tender) yn yr Amerig o 1630 hyd yr 1800au cynnar. Ac mae hadau hemp yn llawn protein - llawer mwy na ffa soya. Ac mae o'n llawer rhatach na ffa soya. Neu o leiaf dyna ddywed yr adran amaeth sydd gan llywodraeth yr Amerig. Mae marijuana yn gyfreithlon mewn nifer fawr o wledydd fel cyffur meddygol - i achosion o glaucoma ac i ymladd yn erbyn y boen a greir gan gancr. Mae o hyd yn oed yn medru gweithio yn erbyn herpes! A dyfalwch pa fath o barasiwt y defnyddiodd Mr. Drug War Junta ei hun, George Bush, wrth neidio allan o'r bomyr yna yn ystod yr ail ryfel byd? Roedd hemp yn anghyfreithlon erbyn hynny, ond 'roedd ffermwyr wedi cael gorchymyn i'w dyfu unwaith yn rhagor ar gyfer ymgyrch y rhyfel. Ac roedd byddin yr UDA yn cadw eu 'blow' eu hunain yn eu trefedigaethau ar y Philippines.

Felly sut newidiodd pethau mor sydyn ac mor drychinebus? Ydy hi ddim yn eich taro chi ychydig yn wirion ein bod ni yn llosgi olew ac yn mygu ein hunain, yn malurio coed ag yn difetha bywydau pobl diniwed drwy eu galw yn 'criminals' a'u taflu nhw i garchar neu yn eu cario ffwrdd i ysbytai cyffuriau, yn dwyn eu meddiannau ac yn eu gwerthu cyn eu bod yn cael achos llys hyd yn oed. Ac yn y broses yn gwneud crac a heroin yn rhatach ac yn haws cael gafael arno na pot. Pam yden ni yn gwneud hyn os nad oes rhaid inni? Yn y cyfamser mae pennaeth yr heddlu yn yr Amerig bell yn cael canmoliaeth dudalen flaen am ddweud y dylai ysmygwyr pot gael eu saethu yn y fan. Pam felly yr holl helynt am marijuana ar ymgyrch anferth dreisiol i'w atal? Wel ydych chi'n barod....?

Yn 1936 rhoddodd y cylchgrawn "Popular Mechanics" dudalen flaen i ddyfais newydd, sef peiriant i brosesu hemp. 'Roeddynt yn proffwydo y byddai hemp marijuana unwaith eto yn tyfu i fod yn grop ariannol mwyaf yn y byd. Doedd hyn ddim yn mynd lawr yn dda o gwbl gyda cwmniau fel Hoechst Paper Manufacturers na gyda unrhyw gwmniau mawr oedd gyda gwaith fforestydd. Wnaeth o ddim mynd lawr yn dda iawn gyda'r cwmniau tobacco am resymau amlwg nag ychwaith gyda ein hen gyfaill Du Pont. Dydi prosesu hemp ond yn defnyddio pumed rhan o'r cemegau sydd ei angen i brosesu pulp pren. 'Roedd Du Pont newydd ddyfeisio peiriant i brosesu sulphide ac 'roedd y ffibrau prosesu Du Pont wedi pasio hemp fel ail agos i gotwm ac 'roedd Du Pont am gadw pethau felly. A'r peth olaf oedd cwmniau mawr cyffuriau ei eisiau oedd colli eu siar o'r diwydiant afiechyd i feddyginiaethau allai gael eu gwneud yn rhatach achos.... gwrandewch ar hyn.... Ni chaniateir fod yn berchen ar feddyginiaeth a gwneud pres ohono fo yn y wlad yma os nad oes cemegolion artiffisial ynddo. Os yw meddyginiaeth yn hollol naturiol o ran ei wneuthuriad ni ellir ei batentio fo!! Efallai mai dyma pam nad oes gennym ni feddyginiaeth ar AIDS na Chancr.... Yn y cyfamser dyfalwch pwy sydd berchen ar lywodraeth yr UDA? Cafodd marijuana ei wneud yn anghyfreithlon yn 1937.

Ac yn yr amser hynny doedd dim allai greu rhywbeth yn aflan yn well na hiliaeth. A do mi wnaethon nhw daflu petrol ar dân hiliweth yn union yr un fath ac y maen nhw yn gwneud pan nad ydyn nhw yn hoffi roc a rol, rap a hip hop. "Roedden nhw yn dweud y byddai ysmygu marijuana yn eich gorfodi i ddisgyn dan ddylanwadau "listening to jazz"... Yn yr Amerig dywedwyd yn congress na ddylid ei ysmygu gan y byddai hynny yn peri i ddyn gwyn edrych ddwywaith ar ferch ddu.... Felly yn 1937 gwaharddwyd marijuana fel planhigyn y cythraul. Dim ond 53 mlynedd yn ôl 'roedd o'n gyfreithlon.

Oes angen i mi ddweud unrhywfaint yn rhagor pam fod ein harweinwyr gwych a dewr yn mynd allan o'u ffordd i gelu'r ffeithiau gymaint. Allwch chi ddychmygu y fath ymateb fyddai petai y math yma o wybodaeth yn dod allan go iawn go iawn. Y tristwch efallai ydy fod y clwyddau yma wedi cael eu derbyn i'r fath raddau erbyn hyn nes fod arweinnwyr y gorllwewin yn eu credu. Beth petai pobl yn cael gwybod fod y broblem gyffuriau enfawr yma maent yn clywed gymaint amdani yn cael ei achosi gan y llywodraeth eu hunain! Beth petai pobl yn cael gwybod y gellid newid ein hamgylchedd bersonnol eu hunain heb orfod dewis cachu naziaidd fel rhyfeloedd olew a rhyfeloedd cyffuriau jest drwy ddweud na wrth John Major a George Bush? A beth petai pobl yn gwybod fod yr union gwmniau sydd yn ein cadw mewn pethau angenrheidiol fel papur ty bach Kleenex a phost-junk wedi newid ein byd ni yn fwriadol ac yn hollol gyfalafol nes ein bod ni erbyn hyn yn llythrenol sychu'n tinau gyda'n dyfodol?

OES RHAID I BETHAU FOD FEL HYN?....Dwi'n casau ysmygu'r stwff a'r holl feib egni isel ymenydd cwsg/marw sydd yn dod gydag o. Ond does dim rhaid i chi ysmygu pot i sylweddoli mai nid y broblem gyffuriau yw'r broblem gyffuriau go iawn yn y wlad yma. Tybed allwn ni roi cymorth i'n problem gyffuriau, ein problem troseddu, problemau amgylchedd, hyd yn oed ein problemau hiliol, os y dywedwn na wrth John Major a dod at ein gilydd a . . . . THYFU MWY O POT?

**Dave T.**

*Ymddangosodd yr erthygl yma gyntaf yn y cylchgrawn 'Wake Up' dan yr enw 'Grow More Pot'*

hwyrach?

BBC CYMRU

# PiGiON PiWSiG

**AR WERTH**
Drymiau 'PREMIER' "Chrome Clad". 5 Drwm.
Symbalau Zildjian a Paiste, Remo Rototoms, stands, stol ac yn y blaen. Y cyfan mewn bocsus. Pris i'w drafod.
Ffôn: Caerdydd (0222) 221 584.

**JINA**
Mae nifer cyfyngedig o grysau-T poblogaidd iawn JINA ar ôl heb eu gwerthu, felly dyma'ch cyfle ola i fod yn berchen ar enghraifft o gelfyddyd cnawdol cyfoes. Manteisiwch ar y cyfle drwy gysylltu â Pwyll ap Sion ar 0248 602 107.

**DISGO TYSTION**
Mae DISGO TYSTION ar gael am bris rhesymol ac yn cynnwys amrywiaeth amesing o gerddoriaeth o pop, dawns, hip hop, techno, ref, reggae, indie, 60au, gwerin a chlasurol. Manylion pellach: 0267 233 476.

**IAN RUSH**
Mae crysau-T IAN RUSH (y grŵp) yn dal ar gael am £6.50 gan Marc Jones, 31 Stryt y Bont, Pynycae, Wrecsam, Clwyd. Ffôn: 0978 843 401.
Ar y crysau gwelir cynllun gwychfawr sy'n dangos IAN RUSH ( y peldroediwr) yn sgorio'r gôl enwog yn erbyn Yr Almaen ar Barc yr arfau.

**PSYCHO #4**
Mae'r pedwerydd rhifyn o'r ffansin "Psycho" allan nawr. Mae'n cynnwys cyfweliadau, adolygiadau (+discograffis) Hyn i gyd o fewn 30 tudalen ar gael trwy'r post am ddim ond £1.00 (sy'n cynnwys post a chludiant) gan Steffan Cravos, 8 Penybanc, Tanerdy, Caerfyrddin, Dyfed SA31 2HA.

**AIL SYMUDIAD**
Mae AIL SYMUDIAD yn rhyddhau eu trydedd record hir (mewn 14 mlynedd)! DDY MWFI ar gyfer y Nadolig. Mae 10 o draciau newydd ar y caset gan gynnwys "Tori Mewn Trwbwl", "Arti Ffarti" a "Lawer Rhy Dew Eamon", bargen gyda seffiget Pi Gi yn eich siop leol nawr!

**PA PA?**
Chwilio am PA? Cysylltwch â Emyr Lloyd (PA RHAD) ar (0341) 41 205

**ISIO GIG YN YR ALBERT?**
Mae gigs yn cael eu cynnal yn yr Albert, Caernarfon pob nos Iau. Os oes gennych ddiddordeb mewn chwarae ffoniwch ALEX am fanylion a thelerau ar (0286) 3468.



AIL SYMUDIAD

**AMLGYFRANNOG**
Mae GWYN JONES o Fethesda yn chwilio am gyfraniadau ar ffurf caneuon newydd gan grwpiau ar gyfer caset amlgyfrannog. Bydd unrhyw elw o werthiant y caset yn mynd at godi arian ar gyfer ymgyrch sefydlu canolfan gerddorol a chymunedol ar safle'r Tabernacl ym Methesda. Cafwyd cadarnhad yn ddiweddar bod cwmni yn barod i noddi y fenter yn rhanol, ond bod angen codi'r arian sydd weddill. Byddai cyfraniadau gan unrhyw grwp yn cael eu gwerthfawrogi.
Am fanylion pellach cysylltwch â GWYN JONES ar 0248 602 107

**WNCWL FFESTR**
Er mwyn dathlu eu ymddangosiad cyntaf ar Fideo 9 mae WNCWL FFESTR wedi datgan "cynnig arbennig ar gyfer tymor ewyllus da", mewn geiriau eraill caset WNCWL FFESTR am hanner pris sef £2.00 +50c post a chludiant gan Guto Lloyd, 68-70 Stryd Kinmael, Y Rhyl, Clwyd LL18 1AW. Yn ol Guto "Dyma bresant 'Dolig penigamp!"

**BEGANIFS**
Bydd BEGANIFS yn teithio Cymru rhwng Rhagfyr y 15ed a'r 19ed gyda GERAINT JARMAN A'R CYNGHANEDDWYR.
Bydd y daith yn ymweld a phum canolfan
Rhag 15, Octagon, Bangor;
Rhag 16, Canolfan Aberconwy, Ll'dudno;
Rhag 17, Neuadd Victoria, Llambed;
Rhag 18, Theatr Cwm Tawe, Pontardawe
Rhag 19, The Exchange Hall, Caerdydd.
Manylion pellach gan ANKST - ALUN, EMYR neu GRUFFYDD ar 0286 881 010

**DAFYDD IWAN**
Ar gael yn y siopau ar gyfer marchnad y Nadolig mae llyfr newydd o ganeuon DAFYDD IWAN. Mae'r casgliad yn cynnwys 151 o glasuron hen a newydd, gyda chordiau ar gyfer gitar a sol-ffa. Pris y llyfr yw £7.95 a'r cyhoeddwyr yw Gwasg y Lolfa.

**BYD NEWYDD**
Mae'r BYD NEWYDD wedi bod yn brysur yn STIWDIO OFN yn ddiweddar yn paratoi tap 12 cân fydd allan erbyn mis Mehefin 1993. Ar hyn o bryd mae son hefyd bydd posibilrwydd o 'compilation' CD fyddai'n ymgorffori ROCED RYAN GIGGS a chaneuon y tâp newydd.

**RHAGLEN WERIN**
Bydd pedair rhaglen ar ganu gwerin yn cael eu darlledu ar RADIO CYMRU dros gyfnod y Nadolig. Bydd y gyntaf yn y gyfres yn cael eu darlledu ar brynhawn Mercher Rhagfyr 16 rhwng dau a thri gyda'r rhaglenni eraill yn cael eu darlledu ar y dyddiadau Mercher canlynol.

**RHEINALLT H. ROWLANDS**
Mae RHEINALLT H. ROWLANDS yn recordio yn STIWDIO OFN ar hyn o bryd gyda'r bwriad o rhyddhau y deunydd ar CD yn y flwyddyn newydd. Maen't yn chwilio am label fydd a diddordeb yn y fenter.

**WWZZ**
Mae WWZZ wedi prynu desg 16 trac gan GORWEL OWEN, STIWDIO OFN ac yn bwriadu mynd i Lundain cyn hir i brynu mwy o offer. Mae'r aelodau wedi ail

# PiGiON PELLACH

gymysgu trac ar gyfer tâp newydd HANNER PEI ac yn bwriadu sgwennu ac ymarfer caneuon ar gyfer caset newydd fydd yn ymddangos o gwmpas mis Mawrth.

**MONIARS - COFIWCH Y TRI**
Mae'r MONIARS yn parhau i deithio er mwyn hyrwyddo eu caset diweddaraf "FE GODWN ETO" ac er mwyn dwyn ACHOS Y TRI i sylw'r cyhoedd. Yn ystod eu cyngherddau bydd casgliad yn cael ei wneud ar gyfer teuluoedd y tri, sef GARETH "STWMP", SION AUBREY a DEWI PRYSOR sydd wedi bod yn y carchar ers dros flwyddyn bellach heb brawf llys. Bydd yr arain a gesglir yn mynd yn i helpu plant GARETH "STWMP" dros y Nadolig. Mewn datganiad diweddar dywed ARFON WYN lleisydd y grwp "dylai canu cyfoes gael ei ddefnyddio er lles yn hytrach na dim ond adloniant a meddwi, fel y dangoswyd ar hyd a lled y byd ers 'Live Aid'."

**RECORDIAU TREFECHAN**
Mae cynlluniau cyffroes ar droed yn Nhrefechan, Aberystwyth i sefydlu label recordiau newydd ar gyfer Gwanwyn 1993. Ynghlwm yn y fenter mae MEIC BROMWELL o STIWDIO 3YDD CLUST, NICK JONES o ROSEBUD MUSIC, GWION ROWLANDS o TIPS WYN GRUFFYDD ac ANNIE MORGAN-JONES o CUSAN TAN. Eu bwriad yw hybu cerddoriaeth sydd yn "tynnu oddi ar amrywiol draddodiadau ac arddulliau ac sy'n allblyg a grymus eu gweledigaeth. Nid Cymraeg a Chymreig yn unig; nid Prydeinig yn unig. Mae'r label, yn hytrach, yn anelu tuag at farchnad Ewropeaidd ac yn edrych tua'r dyfodol . . . . . . . Mae'r label yn awyddus i agor y drws i'r posibilrwydd o weithio gyda cherddorion o wahanol genhedloedd y tu mewn a thu allan i Wledydd Prydain. Mae'r gred fod can dda yn gan dda mewn unrhyw iaith yn ganolog i'n syniadaeth". Eisioes mae prosiect wedi ei gychwyn fydd yn anelu at godi cyllid at lansio'r label, bydd holl gyfranwyr y caset cyntaf yn rhoi eu gwasanaeth am ddim er mwyn hybu'r cynllun, gyda'r bwriad o sefydlu canolfan gynhyrchu a datblygu cerddoriaeth i ardal Aberystwyth. Manylion pellach gan: MEIC BROMWELL, STIWDIO'3YDD CLUST, THE OLD MALT HOUSE, TREFECHAN, ABERYSTWYTH (0970) 624 572.

**SOTH (ACH)**
Ar Rhagfyr 15 mae SOTH yn cael ei ail-lawnsio i ddathlu nifer o newidiadau pwysig yng ngwedd a chynnwys y cylchgrawn, yn y tim sy'n cynhyrchu'r cylchgrawn ac yn y ffordd y bydd yn cael ei farchnata. Bydd rhifyn Nadolig SOTH ar daith drwy Gymru gyda GERAINT JARMAN a BEGANIFS sy'n cael ei drefnu gan ANKST a CHYMDEITHAS YR IAITH rhwng Rhagfyr 15 ac 19 a bydd SOTH yn noddi'r noson ar Rhagfyr 16 yng Nghanolfan Aberconwy, Llandudno.
Y datblygiadau newydd fydd:
**TIM NEWYDD** -Penodwyd HUW DYLAN o Ddolgellau fel Golygydd newydd i SOTH. Mae HUW yn aelod o'r grwp GWERINOS ac yn gyn-aelod o'r DEFAID ac wedi cyfrannu i'r cylchgrawn dros y flwyddyn diwethaf. Bydd yn cyd-weithio yn agos gyda OWAIN MEREDITH sy'n gyfrannwr cyson, yn aelod o'r tim golygyddol ac yn gyfrifol am hysbysebion.
**GWEDD** -Bydd gwedd SOTH yn newid drwy newid y papur i bapur 'newsprint' a bydd datblygiadau yn y cysodi i gyd fynd a hyn. Bydd y clawr a phoster lliw yn parhau.
**CYNNWYS** -Bydd cynnydd aruthrol yng nghynnwys SOTH gyda'r print yn mynd yn fanach. Mae'r dull o gomisiynu cyfraniadau wedi ei broffesiynoli ac mae rhwydwaith o gyfrannwyr a newiddiadurwyr yn sicrhau llif cyson o erthyglau ac adolygiadau i'r cylchgrawn.
**SYRCIT SOTH** -Chwefror ymlaen bydd pob rhifyn o SOTH yn cael ei lawnsio gyda chylchdaith drwy Gymru a bydd copi o'r cylchgrawn yn gynnwysiedig yn y pris. Yn ystod wythnos gyntaf pob mis bydd band yn cael eu danfon lawr SYRCIT SOTH fydd yn golygu gig yng Nghaernarfon nos Fercher, Blaenau Ffestiniog nos Iau, Aberystwyth nos Wener a Chaerdydd nos Sadwrn.

**GWRTHEYRN**
Mae GWRTHEYRN yn chwilio am ganwr newydd. Mae hyn yn dilyn ymadawiad JAC eu lleisydd presennol sydd yn bwriadu canolbwyntio ar brosiectau eraill. Yn y cyfamser mae GWRTHEYRN yn dal i ymarfer a jamio. Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno a'r grwp neu am drafod ymhellach yna cysylltwch a Waun ar (0758) 721 415.

**CÂN I GYMRU '93**
Unwaith eto daeth yn amser i gyfansoddwyr Cymru arddangos eu doniau a cheisio yng nghystadleuaeth flynyddol CÂN I GYMRU. Eleni mae'r wobr yn £1000 i'r enillydd (rhodd y Co-operative Retail Services Cyf. yng Nghymru) ynghyd a thlws arbennig. Bydd cyfansoddwyr y caneuon sy'n cael eu dyfarnu yn ail a thrydydd hefyd yn derbyn tlws a thelir cydnabyddiaeth o £150 fel tal hawlfraint i gyfansoddwyr y 7 can anfuddugol. Bydd 8 can yn cael eu dewis o blith yr ymgeiswyr gan y panel beirniadu, ac yna yn cael eu perfformio ar rhaglen CAN I GYMRU '93 fydd yn cael ei ddarlledu'n fyw o Stiwdio Barcud, Caernarfon ar nos Sadwrn, 10fed o Ebrill, 1993. Bydd yr enillydd yn cael ei ddewis trwy bleidlais ffôn gan y gwrandawyr ac fe fydd yn mynd ymlaen i gynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth Celtavision yn Galway, Iwerddon yn ddiweddarach ym mis Ebrill. Mae ffurflenni'r gystadleuaeth ar gael nawr drwy gysylltu â TELEDU TIR GLAS, Maesincla, Caernarfon, Gwynedd. Ffôn: (0286) 67 57 66. Y dyddiad cau yw Ionawr 22, 1993

**YR ADDEWID**
Mae YR ADDEWID yn chwilio am ddrymiwr newydd i lewni'r bwlch ar ôl i JASON PARRY orfod gadael er mwyn mynd i'r coleg yng Nghaerdydd. Felly os oes gennych chi ddiddordeb cysylltywch a : IWAN DAVIES, Ystafell 107, Neuadd Eryri, Coleg Normal, Bangor. Neu ffoniwch (0248) 362 535 rhwng 6 a 7pm.

# DISCOGRAFFI Y MIS : EIRIN PERYGLUS

Mae'n rhaid mai Eirin Peryglus yw y prif fand safonol i fodoli yng Nghymru yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf. Mae'r swn a'r agwedd yn broffesiynol, ac yn aml iawn mae'r gerddoriaeth yn wyrdroedig o syml/gymhleth. Heb ddweud mwy mae'r band yma wedi gosod y sail ar gyfer cerddoriaeth Gymreig. Dyma'r band ddaeth a cyfrifiaduron i mewn i gerddoriaeth gyfoes Gymraeg. Cerddoriaeth ddawnsiadwy gydag alawon Beatlesque. Cor Blaimi gyfynyr!!!



**1987** - Bronson (Ofn)

**1987** - Celtia Roc (lp fendigedig ddaeth allan ar Sain, un gan)

**1988** - Merthyr (Ofn, y glasur ddaeth ag EP i fyd y gan bop)

**1989** - Eirin Peryglus (Yr EP gan EP sydd wedi dechrau yr holl ffys sydd yn amgylchynnu stiwdio Ofn)

**1990** - Trosgynnol (Hon oedd unig fethiant EP, ar Ofn)

**1990** - Hen Wlad Fy Nhadau (un gan yn unig, a honno ddim cweit yn cydio)

**1991** - O'r Gad (1 gan arall a hon dipyn gwell)

**1992** - Noeth (clasur o cd sydd wedi newid bob barn. Bendigedig, ac ar Ofn)

## PETRA KELLY

Yn ddiweddar syfrdanwyd cefnogwyr mudiadau gwyrdd drwy Ewrop gan farwolaeth sydyn a thrashig Petra Kelly.

Yn ystod y 90au roedd Petra Kelly wedi llithro i raddau o lwyfan gwleidyddol yr Almaen, ond y hi yn fwy na neb arall, trwy ei hymgyrchu di-flino sefydlodd seiliau i wleidyddiaeth gwyrdd Ewropeaidd.

Ar ôl cyfnod o weithio dramor, dychwelodd i'r Almaen yn y 1970au, ac arweiniodd yr ymgyrch chwyrn yn erbyn ynni niwclar a lleoli taflegrau Cruise yn y wlad. Yn 1979 sefydlwyd Plaid Werdd yr Almaen, sef Die Grunen, ac erbyn 1983 roedd Kelly wedi ennill sedd yn y Bundestag.

Yn ystod yr 80au doedd dim terfyn ar lwyddiant Die Grunen. Ennillwyd rhagor o seddau yn y Bundestag, rhai yn y llywodraethau rhanbarthol ac hyd yn oed yn Senedd Ewrop. Kelly oedd yr arweinydd carismatig a sicrhaodd hyn, gan ddylanwadu ar ei chy-aelodau ac ar y cyhoedd yn gyffredinol i gymryd sylw o faterion ecolegol. O 1984 ymlaen cipiwyd 12% o'r bleidlais yn reolaidd.

Ond wrth i'w poblogrwydd gynyddu, tyfu gwnaeth y tyndra o fewn y blaid. Roedd rhai aelodau yn ffafrio sefydlu clymbleidiau, tra bod Kelly yn anfodlon cyfaddawdu. Yn 1990 collodd ei sedd, ac fe'i dadrithwyd i raddau helaeth gan gyhuddo Die Grunen o lasdwreiddio ei gwleidyddiaeth. Trodd ei golwg at hawliau dynol, ond gyda ad-uniad yr Almaen fe newidiodd natur gwleidyddiaeth i raddau, ac roedd twf yr adain dde yn ei phryderu'n fawr.

Er gwaethaf ei methiannau i sicrhau llwyddiant sefydlog i Die Grunen, bydd Petra Kelly yn cael ei chofio fel y spardun a arweiniodd at boblogeiddio syniadau amgylcheddol a gwyrdd yn ystod y 80au. Bu ei hymgyrch dygn yn erbyn ynni niwclar, y masnach arfau a chwmniau rhyngwladol, yn fodd i danlinellu yr effaith andwyol mae gwleidyddiaeth llwgr a masnachu anghyfrifol y Gorllewin yn gael ar yr amgylchedd a'n daear. Y teyrnged gorau a fedrwn dalu i Petra Kelly yw ceisio'n gorau i hyrwyddo y gwaith a gychwynnwyd ganddi yn yr wythdegau.

**Cynog Dafis.**


LLYGOD MAWR Y MWLDAN / FFLACH

**Yn Cyflwyno Gyda Balchder?**

RICHARD JONES fel Rhisiart ap Betty WYN JONES fel Wyn ap Betty PAUL PRIDMORE fel Paul ap Betty

yn........ AIL SYMUDIAD

**DDY MWFI**



YN CYD-SERENNU FEL EU HUNAIN

DEREC BROWN GERAINT DAVIES
RHEINALLT AP GWYNEDD
CHRIS LEWIS SION WILLIAMS
Y BRODYR WILLIAMS (RHYS A IWAN)

"LLwyth o gachu....." - *EARNEST*
"Legends in their own minds" - *DAILY NEWS*
"....So nhw'n dod o ardal ni" - *DOM*
"Ail beth.....?" - *JESS*
"Mae nhw'n bwyta faggot 'n chips, for God's sake" - *HYWEL ap HORRID-HAIR CUT*

**YN DOD I'CH SIOPAU LLEOL CYN HIR**

## PECYN DOLIG WALCHMAI CYSTADLEUAETH ARBENNIG SOTH DOLIG

Mae'r proffwyd ffynci o Walchmai yn cynnig y gwobrau canlynol i pwy bynnag sy'n ateb y ddau gwestiwn isod yn gywir erbyn 7fed o Ionawr.

**GYRRWCH I:** Y Gystadleuaeth R-bennig, Soth, 8 Rhes Victoria, Bethesda, Gwynedd.

**Y CWESTIWN** : Lle mae terfyn taith yr A5 wedi iddo adael Caergybi?
Beth oedd enw grwp cyntaf Jonny?

**Y GWOBRAU**

1. Can o Butane (wrth gwrs)
2. Atari Sequencer "Cubase" Werth £500 !
3. Cot Johnny 'R' yr un a wisgodd ar Fideo 9 Gwesty R Bennig (Gwyn Shower Hip- Hop Cot XL)
4. Asid House Dummy (Piws)
5. (Un) Fadarchen Hud
6. Crib 'Afro' (Original 70au)
7. Push Pop
8. Bathodyn Celtaidd
9. Calendar Cymraeg
10. Ray Gun arbennig o pert
11. Spectol Haul aur
12. Cuddly Toy

**+ CYNYRCH**

a. A5 'Adroddiad Du' 12" sengl.
b. A5 'Ecsentrig' EP Tap
c. A5 'Amser Y Mis' 7" Sengl (Cylt classic prin )
ch. "R" + Catrin CIA "Ysbryd Newydd" Caset -Sengl
d. Pregethwr II 12" 'Hollywood Caerdydd'
dd. Pregethwr I 12" 'Hardd Cor'
e. Egni 4 ffansin (Gyda tap tanddearol / Bathodyn A5 / mat saspi) + llyfr matchan R-Bennig

CYFWELIAD GYDA SWN: TACHWEDD 1992 : BANGOR PAVILION
GAREJ 24 AWR: COFFI DRWY LEFRITH, COFFI DU, TE.



# S ◆ W ◆ N

"GOTH IS DEAD" : FFRED 7.11.92
"SWN, MWY NA BAND; CREFYDD" : FFION 7.11.92

Ride, Curve, Llesmair mae nhw i gyd wrthi,dylanwad America eto ar y brig, eclectiaeth post post post post modern, dawns, gitar, deppression llawen. Rhai'n beirniadu designer suicide dichwaeth, ffilmiau fel 'Heathers',plant bach spoilt sy'n licio canu am gael eu lladd ond sydd erioed wedi profi rhyfel; eistedd mewn bistro traffordd, deco cymysglyd sydd i fod i wneud chi'n hapus, hunllef?.

**....Designer Suicide dichwaeth...plant bach spoilt sy'n licio canu am gael eu lladd ond sydd erioed wedi profi rhyfel...**

Ffred a Ffiona o Aberteifi, cartref cymaint o gerddoriaeth amhrisiadwy yn ystod y degawd diwethaf, ddim yn beirniadu "Ni'n happy as larks really " ebe Ffred ar ol i Ffion ddisgrifio un o'i caneuon sy'n son am berson yn boddi "Fi'n methu handlo fe , fi'n dechrau lllefain" medde Ffion Gruffudd cantores y grwp," Y problem mwya sdan ni yw bod ni'n sgwennu caneuon ini'n meddwl sy'n itha hapus a mae pobol arall yn clywed nhw ac yn meddwl "That's the most deppressing thing I've ever heard".Dyma ddau o sylfaenwyr 'SWN' band newydd o Aberteifi, sy'n "..Variation ar My bloody Valentine" yn ol Ffred, un o'r gitarwyr , o bosib Swn fydd un o'r bandiau mwyaf hyped erioed, mewn cyfnod o dair wythnos sefydlu, dwy gig, sessiwn radio a cyfweliad yn adran band newydd Soth, albym yn Mis Ionawr, onid ydio'n deg galw SWN yn manufactured band,' Monkees' Ffred?, "Soni'n manufactured, ni'n thought about band, beth yw'r pwynt hongian oboutu, tra ni'n gwybod beth ni'n neud yn barod?"Ffion: "mae fe fel dechre lan to, just gwybod popeth sydd i neud, soni am fynd drwy'r stejys cynnar"Ffred:" Ni gyd yn nabod ein gilydd, ddim yn bod yn big-headed nawr ond dau ddiwrnod gymerodd e, onestly, ni'n gallu chwarae, oedd drym machine dan ni, so oedd popeth bang on amser, ddim fel grwpiau sy'n cael drymar sy'n chwarae am flwyddyn a dal ddim ar amser"

SOTH: Ond onid ydi'r band wedi gwneud pethau'n annodd iawn iddyn nhw ei hunain trwy osod ei hunain fyny fel immediate band aeddfed, sut allwch chi ddat blygu o fan hyn rwan? Ffred: " Yn y stiwdio, bydd lot o sampls, dim fel 'Close the door, close the door' horrible samples, sampls o offerynnau'nb repeato fydd e, lot o constant drone, yn y stiwdio ni'n mynd i swnio fel ni ishe swnio.."Ffiona " le mae fe eisiau 10 gitar yr unpryd bydde hynny'n edrych ychydig bach yn riduculous ar y llwyfan"

Ffred" Yn fyw mae gitar sampls yn mynd i gael eu hiwsio cyn bo hir ,mae'r technoleg dan ni ond..wel mae lkot o waith llwyfan da'n ni as in drum changes of setting..bydde dechre trigro sampls hefyd yn bach o nightmare, neu falle gawn ni sequencer", mae digon o scope at ddyfodol y band mewn gwirionnedd

Ffred:" Mae John y gitarist yn King Of Widdle, gitarstrionics, ma fe mewn i hefi metal, sdim lot o metal da'ni ar hyn o bryd ond falle mewn stiwdio bydd gitarstrionics, galle ni ddim wneud e'n fyw, mae'n rhaid inni gadw'r rythm gitars i fynd drwy'r amser, amser fydden ni'n stopio ny, so fe'n swnio fel ni".

SOTH: Sut pam a ble ddechreuodd Swn?

Ffred: "Pan adawes i Cerrig Melys. ..". le Ffred ei hun cychwynnodd ar y trywydd hwn nid y cyfwelydd a oedd yn ei drugaredd mawr yn barod i drin Swn fel endyd nad oedd yn gaeth i hanes. Ond gan fod y pwnc Cerrig Melys wedi dod i'r Fei..... SOTH: Ydi gadael un band yn sylfaen da i gychwyn band newydd?

**". . . odd dim point, oedd Cerrig Melys wedi mynd mewn ffordd mwy minimalist, oni ishe mynd mwy . . ."**

Ffred: " Y rheswm gadawes i achos oni ishe neud rhywbeth mwy diddorol..eisiau chwarae mwy o gitar,oedd caneuon newydd y Cerrig yn singl gitar bits, oedd y ddau

ohonnan ni yn chwarae yn union yr un rhanne, nunion yr un caneuon, nunion run pryd..odd dim point, oedd Cerrig Melys wedi mynd mewn ffordd mwy minimalist, oni ishe mynd mwy.. oedd dim byd yn bod ar caneuon Cerrig, just y ffordd o'n nhw yn cael ei chwarae"
SOTH: Pam?
Ffiona: "Oedd eisiau mwy o wmph, mwy o balls arnhyn nhw, mae nhw wedi newid lot yn y ffordd mae nhw'n edrych , ar ffordd mae nhw'n swnio...mae nhw wedi newid fel pobol, yn y cychwyn Cerrig oedd yr 'Image Band'"Ffred " Not any more, now mae nhw fel 'go up there and look like I live next door, and play simple very Americanish, bydd nhw'n sugar three piece"
SOTH: Ond mae lot o'r bands newydd yn gweld Cerrig fel role model.

**"Oedd eisiau mwy o wmph, mwy o balls arnhyn nhw, mae nhw wedi newid lot yn y ffordd mae nhw'n edrych , ar ffordd mae nhw'n swnio...mae nhw wedi newid fel pobol, yn y cychwyn Cerrig oedd yr 'Image Band'"**

Ffion: " Ie ond so'n nhw wedi clywed nhw'n ddiweddar, gitar occiasional band yn nhw nawr". Yn amlwg mae ffydd gan yr aelodau fod SWN yn mynd i gynnig yr hyn na all Cerrig wneud ddim mwy yn eu barn hwy,Ffred:" Neuadd dywyll, lot o thaetricals, smocs" SOTH: Ai profiad fydd yn mynd i weld Swn yn hytrach na gig? FFred: "Wel ni wedi mynd lot ar y delwedd, ni ddim yn underground band, ni'n stadium, total experience band, ma ishe mwy o awyrgylch mewn gigs Cymraeg"
SOTH: Felly pwy yw, neu pwy fydd cyneulleidfa Swn?Ffred: " Ni'n mynd i wneud yn union beth wnaeth Cerrig Melys, chwarae yn Lloegr a'r Alban, yn Gymraeg wrth gwrs, math o gerddoriaeth ni'n ei wneud sdim point canu yn Saesneg, sneb yn deall beth ni'n gweud eniwe, awn ni ddim yn ffed yp ar y cuircit Cymraeg,fyddwn ni'n chwarae tu-fas digon a chwarae mewn llefydd anarferol yng Nghymru; peth yw mae lot o caneuon ni'n amrywiol iawn, bydd rhywun yn licio un can efallai a casau'r gweddill, mae canu yng Nghymru fel cychwyn o scrathch mae hanner y cyneulleidfa yng Nghymru ddim wedi clywed y bands mae'r bands sy'n chwarae

**"Ond elli di ddim dweud bod ti'n sgwennu caneuon emosiynol just er mwyn sgwennu a dim diddordeb whatsoever 'da ti yn yr arian . . ."**

wedi clywed" SOTH: Beth fydd Swn yn cynnig i gyneullidfa sy'n troi fyny i gig?Ffred" Fyddwn ni ddim yn efelychiad, mae'n amhosib bod yn hollol stylized, chi'n cael steil chi oddiwrth pobol chi'n lico, ni'n swnllyd iawn, ond yn extremely dinamic, a ma lot o variations dani hyd-yn-oed mewn un can" Ffiona" Ma fe i gyd yn catchy" Ffred " Underlaying pretty music fel Valentines, ma odd bit of discordancy i gadw fe'n... very minor, very sadd, ond happy minor fel R.E.M, mae fe'n very dark, ac yn hypnotig dreamy, mae lot o ganeuon ni'n hir, lot o structural changes, sdim time changes na key changes to, soi'n credu bydd e, mae just long hypnotic bits a wedyn ffrantic bits"
SOTH: Ydi pobol wir isio clywed y math yma o stwff, sgen pobol ddim pres a dim jobs oni fase'n well ganddyn nhw glywed stwff hapus hollol escapist, fel dawns er enghraifft?. FFiona:"Ni yn meddwl gwneud cover versions o disgo seventies fel thunder lips neu walk on water.... FFred" Na beth yw rhanfwyaf o gerddoriaeth, escape, na beth yw swn"
SOTH: Ond onid ydio'n escape downer hypnotig yn hytrach na nerth Anrhefn dyweder?
Ffred:" Gyda Anrhefn mae fe i gyd yn go go go all through, da ni un bit chi'n mynd fewn iddo fe, hypnotised, bit nesaf 'blow your brains' mae rhai bands lot mwy deppressing,Sisters Of Mercy, Swan utterly suicidal, so fe'n effeithio dim arna'i" Ffiona " Ie ond gest ti dy godi lan yn y Goth years yn do?" Ffred " Do. do"
SOTH: Mae yna bwynt arall sy'n bertnasol i'r ddadl yma mewn ffordd sef fod lot o bands yn cymeryd y moral high ground yn gerddorol oherwydd bod nhw hoollol involvedyn ysbrydol yn be mae'n nhw'n canu tra fod pobolsydd just yn grefftwyr caneuon yn cael ei snybio, ydi Cymru wir angen band arall sy'n canu o'r galon, onid ydan ni angen mwy o grefftwyr caneuon sy'n gallu gwneud pres alln o ganeuon syml cofiadwy?
Ffred: " Sdim byd political ynon ni ond fel Kylie Minouge yn deud ' fi'n mynd i neud album a ma fe'n mynd i werthu six billion zillion a fi'n mynd i neud millions a millions of pounds, gret, ond bydden lot gwell da fi sgwennu stwff mae rhai pobol yn licio, rhai ddim, a bob amaser fi'n clywed e fi'n prowd o glywed e..... "
Ffion " Ond elli di ddim dweud bod ti'n sgwennu caneuon emosiynol just er mwyn sgwennu a dim diddordeb whatsoever da ti yn yr arian..." Ffred " Na ond galle band nawr gychwyn a edrych ar y sin yng Nghymru a gweud mae nhw'n licio hyun a licio'r llall, ok sgwennu caneuon ni fel hyn a felco, just inni gael bod yn fawr , ond sdim pleser o fynd lan y llwyfan gyda caneuon ti di sgwennu er mwyn bod yn fawr,commercialism sellout pethau horrible , na i gyd yw cerddoriaeth yw expression of emotion"

**" . . . ond 'sdim pleser o fynd lan y llwyfan gyda caneuon ti di sgwennu er mwyn bod yn fawr, commercialism sellout pethau horrible, na i gyd yw cerddoriaeth yw expression of emotion".**

SOTH: Ond mae hynny'n rybbish di hynny ddim yn wir am y rhanfwyaf o'r records sy';n dod allan... Ffion" Na beth yw cerddoriaeth i fod te na lle ddechreuodd e"
Felly ffrinds os ydach chi'n darganfod eich hun mewn neuadd dywyll mewn hypno ddawns yn hwyr nos fercher a band swnllyd tywyll ar y llwyfan, peidiwch a poeni os ydi un o'r gitarists a'i gefn atoch chi, mi fydd o'n canolbwyntio ar y 'noisy', peidiwch a phoeni os ydi geiriau'r gantores yn annealladwy, bydd ei llygaid hi ar gau "really getting into rhywbeth mwy na'r band", a chofiwch fod Andrew y gitarydd o Fflandrys yn "Licio popeth yn y byd"

**Owain Meredith**

# GWYL FFILM RHYNGWLADOL CYMRU YN ABERYSTWYTH

RHAGFYR 14 TACHWEDD 1992

I ŵyl rhyngwladol rhaid cyfaddef fod y cychwyn ychydig bach yn biwritanaidd a disut, yn arbennig ar ol addewid 'saucy' tudalen flaen y Western Mail y diwrnod cynt, tydi eistedd yn y commodore a gwrando ar chydig o ddiolchiadau capelaidd ddim yn fflachiadus iawn a deud y gwir, ond yn edrych ymlaen at Ŵyl sydd yn llawn at yr ymylon o ffilmiau sparclus o dda roedd y Commodore yn ddigon cyfforddus ar noson oedd yn tywallt glaw. Wrth ddisgwyl am Cylch Gwaed ffilm gyntaf Tim Lynn cyn actor a chyfarwyddwr y gyfres Pris Y Farchnad yma sydd ar y teli ar hyn o bryd fe gawsom animeiddffilm chwe munud yn dilyn hynt Adda yn ystod ei ychydig ddyddiau cyntaf, mae'r diwedd yn awgrymu perthynas agosach rhwng dyn ac anifail!. Ac yna mewn a ni i gylch bywyd Emyr mecanydd ifanc sydd a breuddwyd o fod yn focsiwr proffesiynol ond sy'n ffeindio i fod o'n gorfod ymladd hefo ei gefndir, ei gariad a'i amgylchiadau ar ben gwynebu bocsiwrs 'go iawn' o Lerpwl a'i rheolwyr llygredig yn y Cylch Gwaed grym. Mae hon yn ffilm yn ddios y gellir ei mwynhau, mae'n hen stori sy'n cael ei hadrodd yn syml ac yn llwyddiannus ac sy'n cynnwys rhai cameos gwych yn arbennig Richard Elfyn fel rheolwr garej a Gwyn Prithchard fel cyfaill tad Emyr. Mae'r cymeriadau i gyd yn gredadwy a'r actio yn arbennig o safonol er fod Mei Jones yn ymylu ar hunan-barodi mewn rhai golygfeydd. Yr unig wendid sy'n boenus o amlwg yn y ffilm ydi'r diwedd un, mae'n rhaid mai "Awn i adra te" ydi'r cop owt gwaethaf ers Fatal Attraction, tydi'r gwendidau eraill ddim cweit mor amlwg, y ffaith fod cerddoriaeth Opera yn cael ei chwarae yn ystod rhannau helaeth o'r ffilm, yn arbennig y rhannau emosiynol, heb angor rhesymol i hynny fel oedd yn Moonstruck, ymgais wan ydi cael y rheolwr garej yn canu yn y car a tad Emyr yn digwydd ei wylio yn hwyr y nos (er fod y sgript a ddefnyddir i guddio y brycheuyn yma yn glasurol "Pwy ddiawl sy'n watchad stwff fel hyn dudwch". Roeddwn i hefyd yn ei chael hi ychydig yn annodd dychmygu Llinos cariad Emyr yn rhoi holl obeithion ei bodolaeth ar iddo fo fod yn ennill ffeit, ac roedd y sin lle mae Emyr yn perswadio Ted, y cyn rheolwr bocsio i'w ail drenio ychydig yn fyr ac anghredadwy.

Wedi dweud hynny mae rhannau gorau'r ffilm sy'n cynnwys ffeit Emyr hefo ei dad, a'r sin garu yn y shower yn hen gario unrhyw wendidau. Er fod Cylch Gwaed yn dal ym mowld deryn a chyfresi teledu 'does na hwyl i gael gyda problemau'r dosbarth gweithiol' tebyg fe fyddai'n annheg peidio ei galw'n ffilm, mae'n arbenig o braf gweld ffilm gyfoes o'r diwedd yn hytrach na'r period pieces bondigrybwyll. Yn sicr mae Tim Lynn yn dangos ei ddawn fel cyfarwyddwr, mae'r ffeit yn y diwedd yn osgoi unrhyw ymdeimlad o 'Rocyniaeth' er fod y gwyliwr yn disgwyl y gwaethaf, ac mae'n rhaid cyfaddef fod 'Cylch Gwaed' yn osgoi parodi ar y cyfan, er efallai yn colli'r min sydd gan ffilmiau cyfatebol, fathaBig Man gyda Liam Neelsn.Gwynfyd oedd ffilm fawr S4C yn yr Wyl, ac o bosib un o'r ffilmiau waethaf imi erioed ei weld yn yr ystyr fod Gwynfyd yn crisialu pob cliche boring diweddar a ddefnyddiwyd mewn ffilmiau Cymreig a'i taflu at ei gilydd i un cawdel cachlyd. Ar y fforedd lawr i Aberystwyth y noson honno roedd fuy nhyfaill wewdi proffwydo pob sillaf a siot yn y ffilm yn mlaen llaw, ie y nain yn blagardio ie y blwmars yn y goedwig, ie Zlfas Y Teyc yn actio cymeriad 'doniol', ie y capel..ac yn y blaen blah blahy blah. O'r holl ffilmiau period pieces boring a gynhyrchwyd yn ddiwddar mae'n rhaid mai hon ydi'r gwaethaf. Ydi pobol sgript y ffilmiau yma yn byw mewn time warp neu a'i chwilio am rhyw wynfyd Cymreig na fu na fydd ac nad oes neb isio i fod mae nhw. Mi fyddai'n deffro un bore i un hunllef erchyll lle mae pawb yn gwisgo trwsus byr ar fin marw yn y capel neu'n teithio,n hiraethus ar hen fys bach y wlad ar ei fffordd i gael eiu llygru yn y goedwig gan sais world wise., AAAAAAAAAAAAA!. Sut i wneud ffilm gymreig.

1. dewisiwch gyfnod unrhyw gyfnod ......cyn 1850.
2. sicrhewch fod y prif gymeriad yn byewgyda ei e nain yn darllen ei beibil, ac yn siarad ar hen wer yn aml ar ffyrdd cul gan haf cefn gwlad.
3.sicrhewch fod yr hen wer yn abiwsio y prif gymeriad diniwed yn rhywiool ar y lon drwm gan haf ayyb ond gwnewch yn siwr nag oes unrhyw freonnau na dim byd fekkly yn y golwg rhag dychyryn Anti Matilda sydd newydd rhoi' rtwrci yn y popty.
4.Sicrhewch fod yr hen wer yn mynd i'r capel am chwe awr cyn boddi ei hun mewn llyn cyfagos.
5. sicrhawch fod pob shot yn holllol dywyll fel nad ydi hi'nbosib gweld dim ond ambell ddarn o frethyn brown bob yn hyn a hyn.
6.sicrhawch fod y gyneulleidfa i gyd yn cysgu'n drwm cyn y diwedd, byddwch yn amheus iawn o unrhywun sydd a'i llygaid yn dal ar agor wrth i'r credits rowlio

Mor braf oedd gweld Reservoir Dogs ar nos wener, ffilm violent a gwaedlyd sy'n gwneud i'r gyneulleidfa synnu eu bod nhw'n dal yn fyw erbyn y diwedd ar ol i'r holl fwledi gael eu lluchio o gwmpas.Fel ddudodd sgript sgweenr wrthai cyn y ffilm yr hyn sydd angen ar y diwydiant ffilm yng Nghymru ydi madmachinegunnist yn argibargo ei ffordd i fewn i'r pafiliwn ar ddydd mercher adeg y coroni a saethu pawb, meddyliwch gwych fasa ffrogia'r derwyddon yn explodio'n sgarlade yn edrych.Fydd Reservoir Dogs ddim yn un offilmiau mawr 1993 gfel mae rhai wedi proffwydo, ond ae iddi le ar ochr safonol y cyrion, o fod yn gangster movie roedd hi'n eithaf dwfn ac diddorol, ac yn llawn o steil.Es i ddim i weld Fire Walk With Me' yn fwriadol rehash masnachol o gyfres deledu uffernol a lwyddodd i gonio pob intelligensia cadair eistedd i feddwl i bod hi'n gyfres ddwfn lledrithiol, tra mewn gwirionnedd toedd hi'n ddim mwy na sic joc gan Lynch wrth iddo bvrofi pa mor gullible ydi cyneulleidfa cyfalafiaeth bellach.

| | |
|---|---|
| Cylch gwaed***** | 5/ 10 |
| Gwynfyd ! | 0/ 10 |
| Reservoir Dogs***** | 5/10 |
| Twin Peaks | 0/10 (siwr o fod) |

**Owain Ffynhonau**

**Hedd Wyn- Elenya- Brain Dead**

Cachu ydi gweld cynyrchwyr ffilm Cymru Cefnog Cymru yn creu 'period piece' arall, ie unwaith eto deni'nb cael y fraint o weld y sgidiau lledr brown, y ffair yng nghefn gwlad Cymru, y Cymru wyneb galed su'n ddim yn gallu siarad Saesneg heb orfod swnio fel 'drongos' penwag, y dresel traddodiadol, yr eglwyswyr etc etc etc, siwr bod nhw wedi defnyddio run costumeds o OM UN NOS OLA Leuad a'r llond bwced JCB o'r period pieces hiriaethus eraill. Ar ol

cael hynne allan o'r ffordd rhgaid rhoi canoliaeth lle mae'n ffitio, mae'r ffilm wedi ei chynyrchu'n dda, mae'r stori'n rhedeg yn daclus drwy garwriaethau y bardd cwsg (neis gweld Sue Roderick yn actio slag unwaitheto) ei ystyfnigrwydd i ymladd yn y rhyfel byd cyntaf ac yna ei anturaiethau milwrol yn ffosydd mwd Ffraionc. Yn y golygfeydd yma mae'r ffilm yn rhagori, mae'r cinematography yma yn eithaf effeithiol er ein bod ni wedi ei weld i gyd o'r blaen. Ond mae'r teimlad ychydig yn ysgafn yn y cymeriadau a'r awyrgylch yn gyffredinol. Mae'r actio yn gwneud y tro er ei fod yn dal yn stuff cherdd dantaidd. I orffen plis chi bobol sy'n rhoid pres i'r ffilmiau ailadroddus syrffedus yma i oes a fu, deffrwch newidiwch gyfeiriad neu waeth inni gyd fynd yn nol i neud' fudge' a gwisgo siwtiau brethyn am weddill hanes byd. ELENYA- STEVE GOUGH YN CYFARWYDDO- STORI SYML YDI HON. HANES MERCH IFANC 12 OED O GEFN GWLAD CYMRU SY'N GORFOD TYFU FYNY YN GYFLYM IAWN YN YSTOD CYFNOD YR AIL RHYFEL BYD, HAF 1940 A'I THAD WEDI EI GADAEL I CHWILIO AM EI MAM, MAI'N SYMUD I FYW GYDA 'ANTI MAGI', SEF SUE JONES DAVIES, YR ANTI WYNEB GALED ANGHYNNES (IE UN ARALL)Yna pwy sy'bn popio fyny sydyn yn y stori oind peilot awyren ryfel Almaenaidd sydd wedi gorfod parasiwtiuo i'r ddaear (lle arall-Gol) mewn argyfwng. Mae Elenya yn ei ddarganfod yn y coed wedi ei anafu'n ddrwg ac o hynny allan yn edrych ar ei ol a'i fwydo'n gyfrinachol. Mae'r berthynas rhwng y ddau yn gweithio'n gemegol dda ac mae'r barier laith yn adio at hynny o densiwn ac angerdd sydd yn y ffilm. Mae Pascale Jones, 13, sy'n actio rhan Elenya yn ddisgybl yn Ysgol Eifionnydd Porthmadog ac yn hanner ffrangeg / Cymraeg. Mae ei pherfformiad hi yn arbennig ac unigryw yn y ffilm ac yn sicr yn seren i'r dyfodol. Yn anffodus fel yr Elenya wedi heneiddio a welen yn cael flashbacks o'i phlentyndod, mae'r gyneulleidfa hefyd yn cael eu gadael gyda flashbacks ac atgofion chwerw o;'r cannoedd o filoedd o ffilmiau Cymraeg sy'n rhoi pwysau brawchys ar y gorffennol. Braindead- nos sadwrn olaf y Gwyl Ffilm, y gyneulleidfa trendi yn sylweddoli eu braint o gael gweld y ffilm hon sy'n shlock, trash horror arty mor erchyll fel ei bod hi'n annhebyg o gael ei dangos yn nunlle arall. Ffilm Trash horror newydd o Zeland Newydd gan yr un gwneuthurwyr a 'Bad Taste'. Hanes Lionel, yn ceisio dygymod gyda'i fam broblematig sy'n magu blas at gig dynol. Mae'r ffilm yn cychwyn yn araf ac eithaf dof ond mae'r fam yn datblygu obsesiwn eithaf 'un-hygenic' am gnawd a gwaed. Wrth i'r ffilm ddatblygu mae'r cyrff yn peilio fyny ar raddfa gyflymach a chyflymach, ac mae'r body count yn y golygfeydd parti yn nhy Lionel a'i fam yn eithafol o uchel, mae'r 20 munud olaf yn un sblatr mawr o waed a darnau perfeddol. Peth calonnogol wrach ydi fod ysbryd ysgafn-slapstig ac yn aml doniol i'r sgript a'r stori yma ac ar y cyfan mae yn blymin gwd laff (peidiwch a disgwyl Terry a June). Mae dylanwad 'Return of The Living Dead) a 'Phsycho' yn amlwg yn y ffilm. Dydio ddim bwys os nad oes yn allawer yn gwneud synnwyr os y gallwch handlo y mah yma o gore mai'n ffilm sic wych, ond i'r rhai calon wan peifdwich a mentro mae'r sins gwaethaf yn aros yn y cof, licio neu ddim. Hoff lein o'r ffilm "This calls for some divine intervention"

allan o 5

Hedd Wyn **

Elenya ** a hanner

Braindead *****

**Frank Lee Not**

# LLYFRAU

**Prosiect NOVA- gan Andras Millward cyhoeddir gan y Lolfa**

Nofel Ddebiw gampus gan Andras Millward y nofelwr ifanc penderfynol o Aberystwyth sy'n troi'n chydig o Media seleb ar hyn o bryd ac sy'n reidio motobeics fel mae pawb yn licio'n hatgoffa ni'n rhyfeddol o aml, fel petai reidio motobeics yn rhywbeth diarth a anllenyddol i Gymru. Unwaith eto mae'r Lolfa y wasg mwyaf mentrus yn y byd Gorllewinol yn rhoi cyfle unigryw i nofelydd ifanc weld ei waith mewn print, bydd y gofgolofn i weithwyr y Lolfa yn hollol anferthol pan ddaw hi'n amser talu teyrnged. Nofel i bobol ifanc ydi Prosiect NOFA ( eu hoed a'u hysbryd) ebe'r blyrb yn obeithiol ac mae'n ddios mae nofel wyddonias yn y dull a ddisgwylir i rhywun iau fedru ei amgyffred sydd yma. Mae'r sgwennu yn ddeallus a rhwydd, y sefyllfaoedd a'r cymeriadau yn gwbwl gredadwy, sy'n dipyn o gamp o ystyried y rhyfeddodau sy'n gwynebu'r prif gymeriad, a'r plot yn ddiddorol ac arswydus, mae rhywun ond yn gobeithio fod Millward yn medru troi ei law at nofelau gwyddonias mwy aeddfed ac athronyddol hefyd, os dio'n gallu gwneud hynny yna watch out!, mae'r dyfodol yn ei ddwylo. so tiw sbic. Camp pennaf Millward o bosib yn Prosiect Nova ydi creu nofel fydd yn hollol ddealladwy i'r ieuenctid yn yr ystyr fod cyfeirnod at ffilmiau cyfoes diweddar megis Terminator 2 a Total Recall yn frith, yn arbennig o rhan plot sy'n bwrw dyn da o'r dyfodol yn ol i'n presennol ni er mwyn medru diddymu esgoriad erchyllterau yn y dfodol sydd wedi ei gwreiddio yn ein presennol, OK? dallt?. Falle mai dylanwad ffilm sy'n gyfrifol am ddiwedd y nofel sy'n eithaf spectac o rhan space time continium a phethau'n ffrwydro, ond sy'n tueddu i gymylu chydig ar y plot, falle fod y nofelydd wedi mynd braidd dros ben llestri erbyn y tudalennau olaf. Pa bynnag erchyllterau sydd yn y dyfodol dwi'n proffwydo llewyrch llenyddol i Millward y rociwr.

**LLYWELYN LLYFRBYF**

# DAWNS

**SIONED HUWS**

Mae hi yn amser eithaf deppressing yntydi, diweithdra yn rhemp, prisiau tai, Extreme yn cael heip er bod nhw'n gachu, ond cyn ichi fynd i neidio'n rhamantus oddiar y bont agosaf peidiwch anghofio am y sin ddawns/theatr yng Nghymru sydd ymysg y mwyaf cyffrous yn y byd. Ar benllanw y ddawns/theatr sin yng Nghymru mae Sioned Huws o Bentir ger Bangor newydd ffurfio ei chwmni ei hun yn y Gogledd. Yn dilyn perfformiad avant garde iawn yn Theatr Gwynedd yn ddiweddar lle roedd Sioned yn llamu o gwmpas i gyfeiliant ffidil fach unig ac yn dawnsio 'Llanw A Thrai' sef teyrnged efelychiadol i stepiau traddodiadol gwerin Cymreig sy'n efylychiad o symudiad y Mor yn ol Sioned. mae cynlluniau mwy beiddgar fyth ar y gorwel. Mae Sioned fu'n hyfforddi yng Nghanolfan Laban yn Llundain ac a dreuliodd ddwy flynedd yn stiwdios dawns Merce Cunningham yn Efrog Newydd, wedi dawnsio i waith corogrefftwyr enwocaf y Byd, ei gobaith yw sefydlu ei chwmni dawns ei hun a chreu gwaith sydd yn' unigryw i'w safle', er enghraifft yn Theatr Gwynedd fe ddefnyddiwyd cerddorion ac offerynnau 'lleol.

# FFA●COFFI●PAWB

CYFWELIAD RHWNG **FFA COFFI PAWB** A G.I.JONES TACHWEDD 1992




**Cyn ichi gyd ddigalonni bod ein is-ddiwylliant poblogaidd ni unai yn cael ei draflyncu fwy fwy gan orffennol sydd ddim yn perthyn i ni neu'n cael ei herwgipio gan bleeps rhowch ddeugain munud o'ch amser prin i Ffa Coffi Pawb. Mae nhw'n donic i'r enaid, yn chwarae gitars fel tase nhw'n mynd allan o'r ffasiwn ac mae nhw'n rhyddhau eu ail gasgliad o ganeuon erbyn y Nadolig.**

Mae 'Hei Vidal' (Ankst) yn adfer ffydd rhywun mewn gallu grwp Cymraeg i gynhyrchu LP Roc sy'n aeddfed ond heb fod yn rhy fewnblyg-ddifrifol. Pan ddaru'r Cyrff chwalu roedd hi'n hawdd anobeithio am sefyllfa pethau. Mae FfaCoffi yn camu i mewn i'r 'bwlch' yma yn esmwyth a diffwdan. Mae'r LP yn fflyrtio efo'r abswrd, yn llawn dychymyg a delweddau byw. Pleser ydi bod wedi cael dilyn datblygiadau cerddorol y band ers pum-mlynedd. Ddaru nhw lwyddo i ysgwyd y tag ' Mary Chain' oddi am eu gyddfau ar y cychwyn hefo cryfder a chymeriad eu caneuon eu hunain. Erbyn heddiw mae'r dylanwadu wedi ehangu ond mae gan Ffa Coffi eu swn a'u cyfeiriad eu hunain.
Ar yr LP newydd mi glywch chi adleisiau o'r 60au a'r 70au: tra fod 'Profion Moddion' yn atgoffa rhywun o Jimi Hendrix ar ei fwyaf laid back a reflective, mae 'Sega Segur' yn nodio'i phen yn ryddmig i gyfeiriad T-Rex. Ar y cyfan mae 'Hei Vidal' yn gyfoethog yn ei threfniadau ac yn ddigri-ddwys yn ei delweddau geiriol. Braf ydi cael siarad efo rhwyun fel Gruff Rhys sydd yn llawn o bethau positif i'w ddweud am ei gerddoriaeth ac sydd ddim yn fodlon hogio'r sylw trwy fynegi unrhyw ragfarnau anaeddfed am gerddoriaeth pobol eraill.

**Pam Hei Vidal fel teitl i'r casgliad newydd?**

FFCP: "Wrth recordio un o'r caneuon o'n i'n darllen erthygl ar ddramodydd o'r Eidal. Vidal rhywbeth oedd ei enw fo- yn gwneud dramau yn delio hefo anifeiliaid a ballu. Rhywbeth hollol hap a damwain oedd o. Rydan ni wedi trio gneud LP abswrd sy'n adlewyrchu'r byd abswrd ryda ni'n byw ynddo fo."

Mae'r syniadau yn rhai o'r caneuon a'r clawr (llun o blatiau wedi eu stacio ar ben eu gilydd) yn ymylu ar yr abswrd. Ai bwriadol oedd yr elfen yma?

FFCP: "Na. Mi ddaru ni gychwyn recordio tua blwyddyn yn nol. Datblygu'n raddol wnaeth pethau.Tydio ddim yn 'concept album'. Jest casgliad o ganeuon efo rhai yn fwy abswrd na'i gilydd."

Sut ewch chi ati i sgwennu a recordio cân? Mae nhw'n swnio mor syml ac effeithiol.

FFCP: "Dwi'n cael tiwn yn fy mhen, trio hi ar y gitar a jest recordio. Anaml yda ni'n jamio ond weithiau mi ddaw 'na gan o fanno. Does yna ddim fformiwla i'r hyn ydan ni'n neud."

A beth am y trefniadau / recordio?

FFCP: "Rydan ni'n gwrando lot ar gerddoriaeth pobol eraill ac weithiau yn cael ein dylanwadu ychydig bach gormod ganddyn nhw, weithiau mi ydan ni'n cynhyrfu lot...'Be am roid hwn i lawr yn fan'ma fel mae rhywun arall wedi wneud mewn can arall?'... Yn aml mi ydan ni'n rowlio o gwmpas yn chwerthin ar y gan. Jest gneud hwyl a chael hwyl yn copio pobl eraill. Gwybod fod rhywbeth fel 'handclaps' yn mynd i swnio'n corny."

Beth am 'Sega Segur'? Cyfeiriad 'glam-rock i Ffa Coffi?

FFCP: "Rydan ni wedi bod yn gwrando lot- neu astudio hyd yn oed-caneuon y 70au cynnar yn ddiweddar a'r agwedd sydd tu-ol iddyn nhw. Felly mae hynny'n effeithio ar y tiwns ti'n canu yn dy ben ac yn troi allan felly yn y

stiwdio.
Ond mae'r geiriau yn gwbwl amherthnasol i glam-rock yn fwriadol. Ella bod y gan yn swnio fel can pop bimbo ond pan ti'n gwrando ar y geiriau mae o'n hollol wahanol ac yn gneud yr holl gan yn lot fwy eironig. Mae pawb yn nabod math 'Sega Segur' o berson, rhywun sy'n cael eu gwneud yn segur gan y Sega ac yn effeithio ar y ffordd mae nhw'n meddwl. Dyda ni ddim yn rhoi barn-jest fel na mae rhai pobol."



"DWI WEDI GWRANDO AR GYMAINT O GERDDORIAETH FEL MOD I WEDI COLLI UNRHYW YSTYR O CHWAETH -DWI WEDI COLLI GAFAEL AR FY SYNNWYR O CHWAETH... " - GRUFF RHYS

Sut mae Hei Vidal yn wahanol i Clymhalio?

FFCP: "Mae Hei Vidal yn llai easy-listening ac yn fwy difrifol."

Pa un roddodd fwyaf o fwynhad wrth recordio?

FFCP: "Wnaethon ni recordio hon yn fwy mewn un go yn hytrach nag unwaith y mis dros gyfnod o ddwy flynedd. Roedd recordio hon yn fwy instant, ac mae hi'n LP mwy eironig. Y syniad gwreiddiol wrth ei recordio oedd gwneud LP gitar fyw fel ydan ni'n chwarae ar lwyfan- trio cymeryd cam yn nol o 'Clymhalio', ond fe drodd hi allan yn hollol wahanol i be oeddan ni'n trio ei wneud. Mae o wedi troi allan yn lot mwy abswrd a difrifol a doniol- a lot mwy dryslyd adeg Clymhalio doedd gan Cymru ddim digon o LPs /grwpiau / caneuon pop. Mae na lot o grwpiau pop rwan felly doeddan ni ddim yn meddwl bod angen i ni neud LP pop."

Sut ti'n gweld Ffa Coffi Pawb yn ffitio mewn i unrhywbeth- y tumewn neu du-allan i Gymru?

FFCP: "Dwn i ddim. Dwi'n meddwl ein bod ni'n sefyll ar dir reit ddryslyd yn yr ystyr ein bod ni'n licio drysu pobol a gwneud pob math o gerddoriaeth wahanol heb boeni am gael ein derbyn gan un sin. Dwi ddim yn gweld ni'n ffitio i mewn hefo dim yn Lloegr na Chymru. Ryda ni wedi bod o gwmpas am lot i grwp Cymraeg -ryda ni'n eitha hen stagers."

Lle wyt ti'n gweld y grwp yn mynd o rwan?

FFCP: "Da' ni isio teithio fwy rownd Ewrop. Ac ail-rhyddhau hen stwff sydd heb ei glywed ers blynyddoedd. Mae na genhedlaeth gyfan rwan sydd heb glywed pethau cynnar. Dwi'n meddwl bod nhw'n dal i sefyll ar eu traed yn reit dda- yr hen ganeuon. Dwi'n dal yn weld o'n bwysig i ni recordio a chwarae a chael ein derbyn fel grwp yn hytrach nag fel rhan o ddim byd arall. Dyda ni ddim yn trio cystadlu efo neb ddim mwy. Ers talwm mi oedd grwpiau fel y Crumblowers oedd yr un oed a ni yn rhyw fath o gystadleuaeth, efo'r ddau grwp yn rhan o sin Headstun. Rydan ni fwy ar ein pennau ein hunain rwan. Da ni jest isio pitchio i lawr yn rhywle ar ben ein hunain."

Oes yna berson neu grwp ti'n barchu dyddiau yma sy'n gneud cerddoriaeth ti'n fwynhau?

FFCP: "Yng Nghymru dwi'n meddwl y gwnaiff Gorky's Zygotic Mynci, achub yr Iaith Gymraeg! Mae yna lot o gymeriadau diddorol yn Lloegr -pobol fel Lawrence Felt a Julian Cope. Pobol ydyn nhw sydd ddim yn trio ffitio i mewn i unrhyw sin. Dwi wedi gwrando ar gymaint o gerddoriaeth fel mod i wedi colli unrhyw ystyr o chwaeth -dwi wedi colli gafael ar fy synnwyr o chwaeth.. s'gennai ddim llawer o ddiddordeb bod i mewn i unrhyw sin.Mae pob mudiad cerddorol mor fas mae o'n cymeryd blynyddoedd iddyn nhw wneud unrhyw argrafff efo'u gilydd."

Ydi pethau'n iachach yng Nghymru nag oeddan nhw bedair neu bum mlynedd yn ol?

FFCP: "Mae pethau wedi newid lot. Genti grwpiau lot mwy amlwg pop sydd ddim yn trio bod yn subversive fel Beganifs neu Hanner Pei sy'n grwpiau roc a rol traddodiadol. Dwi fewn i hynna. Mae'n bwysig eu cael nhw. Ychydig flynyddoedd yn nol roedd yna hinsawdd gerddorol wahanol lle roedd y chwaeth y tu ol i'r gerddoriaeth yn bwysicach na'r gerddoriaeth ei hun. Roedd pobol isio bod ar John Peel neu yn yr N.M.E -os nag oeddach chdi'n Sobin. Rwan mae na grwpiau ifanc sydd heb ddim diddordeb yn hyn. Mae nhw'n fewnblyg mewn ffordd i Gymru. Dwn i ddim os ydi hynny'n iach ai peidio."

Efo gitars a melodiau yn bowndian rownd ei ben mae Gruff yn amlwg yn fodlon ar ei fyd cerddorol. A pwy fedar ei feio fo? Mae o a Dafydd a Dewi a Rhodri- a Gorwel- wedi cynhyrchu stoncar o LP. Mi fysa band llai talentog wedi gorffwys ar eu rhwyfau ar ol 'Clymhalio' ond mae 'Hei Vidal' yn dangos gallu y band i wthio'r melodiau i diroedd newydd a'r gallu i gyfleu odrwydd y Byd trwy eu caneuon.

"Gris ar ol Gris / Mae'n amhosib mynd yn is / Mae gen ti fotwm dan dy fys / Ac ymennydd sydd yn drist / A ti'n mynd FFAROUT" ●

✎ G. I. JONES

# DEMODEMO

Dyma slot achlysurol newydd sydd wedi ei neilltuo'n arbennig ar gyfer y pethe bach cyffrous yne sy'n cael ei cynhyrchu mewn yastafelloed gwely chwyslyd ledled Cymru, ie yr enwog Ddemo.Lle uffarn fasa'n ni hebddo fo,heb y thrill cyntaf o gael rhywbeth lawr ar dap dio'm bwys pa mor gachlyd ydio, faint o fandie fasa'n dal ati. A fuasai'r Anrhefn wedi gallu bod mor chwyldroadol wyneb yn wyneb ar y cychwyn,onid y Demo oedd eu clogyn anghenrheidiol?
Os ydi nifer y bandiau yng Nghymru yn fawr a'r nifer y tapiau cynhyrchiedig sy'n dod allan yn anferth meddyliwch am y mor dihysbaid sydd o dapiau DEMO.Yn ol Euros Childs, Canwr y Gorkys mae ganddynt dros 40 o dapiau yn eu Llyfrgell. Felly os ydych chi wedi bod wrthi'n ddiweddar yn cael eich cyfathrach gyntaf a Meic RoPhone a'r arswyd o glywed eich llais fel y mae go iawn, wedi bod yn gosod ychydig o'r bwrlwm sydd yn eich pen lawr ar dap am y tro cyntaf erioed, gyrrwch enghraifft draw i swyddfa SOTH i DEMO DEMO, 8, Rhes Victoria, Bethesad, Gwynedd, ac fe fyddwn yn rhoi ein sylwadau teilwng ar eich ymdrechion. Mae'n bosib y byddwn yn eich cynghori i fynd i dyfy nionod yn Sbaen ar ol gwrando ar eich demo, ond peidiwch a digalonni, dani'n gwybod am be yden ni'n siarad.Ar y llaw arall mae'n bopsib bydd eich cynyrch mor anhygoel o wych y byddwn ni'n rhedeg draw i Sain neu EMI a chogio mai ni yw'r seraffiaid.

**Vaffan Coulo -**

Band ifanc o ardal Bangor ydy'r rhain. Grwp sydd wedi cael llawer iawn o sylw yn y Wales on Sunday drwy eu hynt a'u helynt. Ar ôl clywed llawer am y band syfrdanol yma 'roedd fy nghollbren i 'n crynu wrth roi y tap TDK i mewn i fy mega blaster proffesiynnol i (mae pawb sydd yn gweithio yn swyddfa Cytgord yn cael dewis y getow-blastyr o'u dewis nhw, ond mae'n rhaid iddo fod yn llai na dwy fil o bunnoedd). Dydy Vaffan Coulo ddim gystal a hynny o ran y swn a'r gerddoriaeth, mae nhw'n dueddol o dynnu at swn pync garw sydd wrth gwrs yn hawdd iawn ei wneud, ond sydd dim yn apelio ar lwyfan nac ar record. Ond mae gan V.C. un nodwedd sydd yn eu gwneud yn wir deilwng o unrhyw gadair neu goron sydd i'w gael. Mae'r gân olaf ar y tap yn dwyn y teitl syfrdanol "Sh*t Student W***ers", sydd, os nad yn delynegol, yn creu rhyw emosiwn iobaidd iawn ynddom ni oll. Nid fy mod i yn casau myfyrwyr na unrhywbeth felly, gobethio eich bod yn deall!! Ond mae yma rywbeth yn cŵl iawn mewn clywed fod gan V.C. y gwyneb i chwarae hon o flaen cannoedd o fyfyrwyr yn undeb myfyrwyr Bangor a fod yr undeb wedi bod yn ddigon dafft i'w taflu allan o'r adeilad!! Rebels radical go iawn. Heblaw am y nodwedd digon digri yna mae V.C. yn methu apelio, ac yn wir mae'r safon yn gostwng at ddiwedd y tap.
Pediwch a chredu'r heip yn y Wales on Sunday,

**Y Chwilboethion -**

Mae canu yn y Gymraeg yn un peth. Peth arall yn llwyr yw canu i sin danddearol Gymreig sydd a chynulleidfa o 0. Ond mae'n debyg fod y Chwilboethion wedi dod i delerau a'r ffaith yma ers misoedd. Tydy Criw Byw hyd yn oed heb gynnig fideo iddyn nhw!! Mae amrywiaeth eang iawn o gerddoriaeth yma. Mae'r arddull yn newid o fod yn avant garde ar rhai prydiau ac yn gachu ar amseroedd eraill. Mae yma un gân sydd yn techno diwydianol cryf sydd yn eich arwain at uchelfannau'r ddear cyn cwympo i berfeddion y nos. Mae'n hollol hypnotig ac yn creu campwaith o'ch ymennydd. Ar adegau eraill mae'r caneuon yn ymylu ar y pathetic! Ceir geiriau fel "Y Tân yn wlyb ar dŵr yn llosgi"
ar ambell gân gariad sydd yn tanseilio credinrwydd yr holl brosiect. Mae'n amlwg nad oes unrhyw ddawn gerddorol neilltuol yma dim ond nifer o ddynion dewr yn gwneud y gorau o'r hyn sydd ganddynt, ac i fi mae hynny yn gwneud y tâp yma yn filgwaith gwell nag unrhyw grwp metal, rap na gwerin.

**Llesmair - f2f**

Mae Llesmair yn creu y swn mwyaf anhygoel i mi ei glywed ers blynyddoedd. Mae yma ddawn caneuon gwych ynghyd a dawn cerddorol offerynol hyfryd. Nid fod y band oll yn virtuoso na dim byd felly, dim ond fod y ffaith fod Llesmair gyda dim ond yr offerynau band roc safonol yn medru creu swn Orbaidd. Mae hyn yn hollol ddi-duedd. Llesmair yw'r grwp gorau imi ei glywed ers hydoedd. Mae'r awyrgylch a greir yn atgoffa rhywun o Gerrig Melys ar eu gorau, ond mae'r weledigaeth yma hefyd gyda'r gan olaf un yn para am tua 15 munud, pymtheg munud o gerddoriaeth hiraethus Gymreig radical ryngwladol. 'Roedd y blastyr i fyny ar lefel 9 gen i ac roedd fy nghlustiau i yn popian i'r swn duwiol. Y newyddion gwych ydy fod Llesmair wedi darganfod label i'w cynnal yn Semtex ac mae fy hualau ymron a thorri eisioes wrth i mi geisio dychmygu sut sain fydd ar y label ffrwydrol hwnnw. Mae gan Llesmair y ddawn i fynd yn bell, os y penderfynnan nhw ddilyn yr awen. Dwywaith cyn heddiw y cefais y teimlad gwefreddiol wrth wrando ar demo ac a gefais heddiw wrth wrando ar hwn, unwaith i Bob Delyn ac unwaith i Beganifs. Wrth gwrs mi roeddwn i yn anghywir y ddau dro hynny hefyd.

**Corach - Titrwm Tatrwm**

Tâp un gân yw hwn sydd yn amlwg wedi ei wneud fel hwyl, ac nid i'w gymeryd o ddifri! Mae Titrwm Tatrwm yn o'r caneuon gwerin hynny sydd yn medru llenwi'r galon gyda balchder o'n treftadaeth. Mae'r gan yn wych ac yn creu sain safonol am unwaith ar demo - wow! Mae'r wybodaeth gerddorol yn eang mae'n amlwg gan fod yma gitar, llais, synth(Clanadaidd), pibau, ffidil, mandolin, bodran a bâs. Awyrgylch gret i sin werin sydd angen hwn yn fwy na dim.

CYFWELIAD HEFO JESS TACHWEDD 1992 TRAETH TRESAITH, A MANNAU ERAILL YN ARDAL ABERTEIFI, TAFARNAU A STIWDIOS AC YN Y BLAEN:



# JESS YN GIGNOETH

**Sion Williams yn cyfweld, yn bresennol Brychan, Owen a Chris.** Tydio ddim bwys os ydech chi'n hoffi eu cerddoriaeth nhw au peidio, does yna ddim cwestiwn nad Jess ydi prif band Cymru ar hyn o bryd, yn yr ystyr o ymroddiad, breuddwydion, datblygu cerddor cyson a bellach perfformiad llwyfan anhygoel o broffesiynol, dyma fand sydd a offer sy'n werth £30,000 a hynny wedi dod yn gyfangwbwl o boced y band, cerddorion proffesiynol sydd wedi mynd trwy gymaint gydau gilydd; ond a ninnau'n dod i 1993, i lle mewn gwirionnedd mae Jess yn mynd? Paris Hotel caset diweddaraf Jess, yn ol rhai cynnyrch gorau Jess eto, yn ol eraill, 'water shed' yn eu gyrfa a charreg filltir sy'n dynodi cyfeiriad newydd; ond mae 'na rhai sy'n credu fod Jess bellach wedi colli'r cwch, ac fod eu cyfle am lwyddiant wedi hen ddiflannu. Lle'n well i gael y jen nag o eneidiau Jess eu hunain. Aeth Soth draw i Dresaith i wrando ar fand na fu erioed yn brin o rhywbeth i ddweud; ond dyma'r cyfweliad mwya gonest eto.

**Ar y traeth yn Nhre Saith, y gwynt oer yn peri i wirionneddau mawr gael eu spowtio.**

SION: Reit te bois, beth sy' 'da chi weud wrth y genedl?
Brychan: "Ff.c Off"
Chris: " Mae'n or" (lot o chwerthin dwl)

SION:Ichi'n nawr yn band sydd wedi bodoli ers pum mlynedd, ichi still yn cael yr un wefr o chwarae ag och chi yn 1987?
Brychan: "Wel, i fod yn hollol onest a ti Sion yn ddiweddar iawn, fi'n bersonol wedi bod yn teimlo'n itha bored a'r gerddoriaeth inni wedi bod yn wneud, sy'n peth da achos inni'n mynd i altro'r gerddoriaeth, a wneud stwff lot mwy diddorol a wneud sioe ni'n gwd"
Chris: "Gadewch inni fod yn onest mae cerddoriaeth Jess yn boring"
Brychan:" Ma fe'n itha diflas, aethen ni ddim i weld Jess mewn gig"
Chris: "Na, na fi"
SION: Be yn onest?
Chris: "Berffeth onest nawr dim mycan o boutu"
SION: Ichi wedi mynd drwy nifer o gwahanol phases, o fod yn fand eitha indie i ddechre, i fod yn eitha siwper grwp a'neitha dechnegol yn eich cerddoriaeth ichi wedi wneud swing yn ddiweddar though i fynd yn nol mwy roc and rol"
Brychan: " Fi'n teimlo bod ni am fynd i gyfeiriad hollol i'r gwrthwyneb i hynna nawr, inni 'n mynd i ddefnyddio bach mwy o allweddellau..."
Chris: "Beth mae Sion yn feddwl yw bod ni'n fois roc a rol"
SION: Falle eich bod chi wedi troi'n ddiweddar...falle eich bywyd personol chi....(lot mwy o chwerthin anghrediniol) yn fwy roc a rol, yn fwy gwyllt yn y gerddoriaeth..dwi'n credu fod e' yn dangos yn arbennig yn y caset diweddaraf Paris Hotel, dwi'n credu fod Paris Hotel yn 'biography' o Jess y teimladau chi di gael yn y pum mlynedd diwethaf.

---

**DISCOGRAFFI:**

**"Jess", Fflach 1989**
Record gyntaf Jess, y cyffro yn amlwg, taith i Tsecoslovacia gan Criw Byw. Rave reviews gan Gymru ben-baladr.

**"Y Gath", Fflach 1989**
Perthynas Jess a Fflach yn parhau, record yn adeiladu ar flwyddyn anhygoel o lwyddianus, cyhuddiadau o fod yn boring yn cychwyn.

**"Julia Gitar" sengl a chyfraniad ar Hei! Mr Dj, Label 1 1990**
Y mis mel ar ben Jess mewn anialwch, peryg o chwalu.

**"Hyfryd i Fod Yn Fyw", Fflach 1991**
Yn ol nifer o'r pundits,'the pits'. Jess, yn cael ei rhuthro cyn y Dolig. Caset yn dynodi diwedd perthynas hir Fflach a Jess.

**Paris Hotel, Jess1992**
Taith i Sweden, Jess yn Ewropeaid?

---

**CWOTS JESSAIDD**

**1989** *"Os byddem ni wedi methu mewn deng mlynedd, o leia byddwn ni wedi trio..os ydych chi'n recordio caset Cymraeg gyda'r agwedd bod hi ddim yn bosib mynd a'r peth i'r pen gwelith pobol hynny"*

**1989** *" Naethon ni ddim gwybod am y sin Gymraeg tan inni ddechrau canu yno fe.. Fflach ddywedodd wrthon ni...Chwaraeon ni ddeg gig yn Saesneg cyn troi i'r Gymraeg, cychwynnon ni yn Ebrill 1987 a throi i'r Gymraeg yn Chwefror 1988"*

**1990** *"..yn wahanol i fwyafrif y gigs Cymraeg, lle mae'r gyneulleidfa'n dawnsio roedd y gyneulleidfa yn Iwerddon yn sefyll a gwrando ac yn ymateb yn ffafriol"*

**1991** *" Dwi'n gwybod am nifer o fandiau Cymraeg sy'n bwriadu mynd i ganu'n uniaith Saesneg, o leiaf rydyn ni wedi bod yn hollol agored da pawb"*

**1991** *"..y miwsig yn fwy bywiog a mwy dawnsiadwy nag erioed....Bydd pethau'n datblygu o 'Hyfryd I Fod yn Fyw..bydd Jess o hyd yn datblygu"*

**1992** *Darllennwch y cyfweliad!*

Chris: "Yy.. fi'n credu ma fe'n biography o teimladau ni'n bersonol."
SION: What have you got to say Owen?
Owen: " Whose getting the next pint? (miri di-reolaeth) disposable music.." (trafodaeth gyffredinol am napis)
SION: Are you proud of what Jess are doing?
Owen: " You're always proud of what you were doing at the time but when you listen back, there's always flaws, or you could have done it better or you just do'nt like it any more".

## "Gadewch inni fod yn onest mae cerddoriaeth Jess yn boring, fydden ni ddim yn mynd i gig Jess." -Chris

SION: When you was doing Paris Hotel did you feel you were doing the music you wanted to do?
Owen: "Yeah"
SION: And looking back now, the casettes been out for three months?
Owen: " Ff...ing hate it" (cytundeb cyffredinol).. it's the way its been put together. I do'nt like the way the songs run into each other and the edits..but thats roc and rol"
SION: Brychan, pam y teitl Paris Hotel, oes unrhyw esboniad?
Chris: "United Europe a hyn a'r nall, oedden ni eisiau ychydig bach o continental feel ti'n gwybod"
Brychan: "Mae'n rhwydd i fod yn fyw yng Nghymru a mae lot o bobol yn gallu edrych lan eu twll tin eu hunain, dyn nhw ddim yn wneud e'n bwrpasol, felly bach o Ffrangeg a bach o squezze bocs fan hyn a fanco, rhyw yno fo"
SION: Dwi'n ffeindio fod y caset yn lot mwy arbrofol na beth ichi wedi wneud yn y gorphennol, wedi cymeryd agwedd prowd iawn, wi wedi bod yn gwrando arno fe a pyslo beth yw rhei o'r swnie'na?"
Brychan: "Wel inni wedi bod yn iwsio lot o sampls, samplo pobol yn gwneud pethe, beth bynnag mae nhw'n wneud bob dydd, swne bach fel yfed peint, torri gwynt (illustrated)"
Chris: "Wnaethon ni hwn t'weld yn stiwdio bach Penlan ar wyth trac, so oedd rhaid inni fod yn fwy innovative, oedd rhaid inni economisio, so oni'n meddwl beth sydd lleiaf pwysig, wel dryms oni'n meddwl, so rheiny ar hanner trac a bas ar yr hanner arall wedyn mae saith trac gyda Brych a fi wedi inni rho'ir pethe pwysig arno"
Brychan:"Y ffordd wneuthon ni fe oedd rhoi dryms ar y dou drac fel bod stereo left a right dan ni a wedyn bas lawr yr un trac..."
Chris: "Wedyn ni'n goffod rhoi dryms wedi ei effeithio a wedi ei micso wrth bod nhw'n recordio, wedd hynny'n annodd achos odd y controll room a'r live room yn yr un ystafell."
SION: Beth yw'ch hoff gan chi o'r caset Paris Hotel?
Brychan: "Wel ifi'n hoff iawn o Le Jardin Eau, ond wedyn dyw e ddim yn sefyll fel can falle, mae'r Aifft yn dda iawn a'rTren Rhyw a Mab y Diawl, ond fel mae Owen yn dweud unweth iti wedi recordio nhw, cwpwl o fisoedd lawr yr hewl son nhw'n meddwl dim byd iti lot"

## United Europe a hyn a'r nall oedden ni eisiau ychydig bach o continental feel ti'n gwybod"

SION: Chris?
Chris: "Dwi'n casau y Tren Rhyw dwi'n casau Gwlad yr Haf, dwi'n casau Rhy Salw a dwi'n hoffi Mab y Diawl"
SION: Owen?
Owen: "Aifft"

SION: Ychi wedi sgwennu caneuon oddiar y caset.
Chris: "Ni wedi menthyg keybord synth bach oddiwrth rhyw foi salw lleo,l Juno six ac ni wedi bod yn recordio bach o techno... hoffen ni brynu fe actually Sion os yw ar werth... Jess goes Techno"
Brychan:"Mae'r peiriant yna wedi rhoi ysbrydoliaeth newydd inni achos bod gymint o swne newydd arno..ysbrydoliaeth i ganeuon newy.. yn ddiweddar welson ni band o'r enw Silkscreen lan yn Aberystwyth ac i siarad yn dechnolegol hoffen ni wneud set debyg iawn i ffordd wneuthon nhw, yr holl effeithiau oedd ar y lleisiau on nhw'n gwneud nhw ar y llwyfan"
Chris:" Oedd dim cymysgu'n cael ei wneud mas o'r ffrynt o gwbwl, oedd dim micsing desk na PA yn cael ei ddefnyddio o gwbwl, just dou channel yn dod off o'r llwyfan"
SION: Faint mor hir ychi'n mynd i drial plygo eich hunain i gael arian mawr mas o'r byd roc?
Brychan: "Wel a siarad yn bersonol fi'n mynd i neud e cyn hired a byddai byw, sdim byd gwell da fi wneud"
SION: Dod nol at y pwynt ochi'n meddwl fod Jess yn boring beth ichi'n olygu wrth hynny?"
Chris: "Lot gormod canol y ffordd"
Brychan: "Yn bersonol sdim lot o pobol ifainc oed ni yn licio teip na o gerddoriaeth o achos fod e ychydig bach yn geidwadol, fi'n credu bod Jess wedi mynd yn geidwadol"
SION: Ichi erioed wedi meddwl am symud i le arall i fyw, oeddech chi'n gweud wrthai gynne bochi'n gweld yr un gwynebe ymhob man?
Brychan: "Nawr de, ti di bwrw'r hoelen ar ei phen achos...."
SION: Achos o wrando ar Paris Hotel fi'n teimlo eich bod chi'n ysu am fod yn y gwesty ym Mharis.
Brychan: " e y gwesty mochedd brwnt; wedai wrthot ti amser oni'n yn Paris Hotel, dwy nosweth fues i yna, odd tair modfedd o waste oil ar y llawr"
SION: Oedd e? Ychi ishe bod yn fand brwnt?
Pawb: " Ni yn"

## "Ni'n mynd i fynd yn hollol hoyw, ni yw hoywon gwyllt Aberteifi"

Brychan: "Ti'n siarad am ni'n symud off, beth fi'n gobeithio'i wneud yw bod ni'n dod yn uned symudol, bod ni'n prynu cerbyd allwn ni byw yn a cadw'r offer yn, a mynd i Ewrop gyda rhestr o ddyddiade a adeiladu arno. Beth inni wedi ffeindio mas yn y gorffennol inni bod yn adeiladu dilyniant da cryf iawn lan a wedyn bod ni'n goffod dod gartref"
SION: Pryd hoffech chi weld eich hunain yn symud i'r cyfeiriad hyn?
Brychan: "Dwi'n bwriadu byddwn ni'n symud mas yna yn y Gwanwyn rhywbryd, falle byddwn ni'n ffeindio mas mai ond am dair wythnos byddwn ni mas yna, pethe wedi cwympo drwodd, ond inni mynd i rhoi shot iddi, gwerthu ein hunain i'r cyfandir"
SION: Bydd dim ots dach i adael cartref te?
Chris: "Yr unig broblem sdan ni yw unweth mae'r EEC laws yn dod fewn gyda band on tour mae standard size of penis i gael.. ni gyd yn rhy fawr..."(sgwrs yn dirywio i'r fath raddau wedi hyn fod y tap yn gorfod cael ei stopio am ychydig)
SION: Mae lot o'r caneuon ar Paris Hotel yn son am fenywod yn gadael a rhyw (wedi ei ysbrydoli gan y sgwrs flaenorol) mae hyn yn adlewyrchu y sefyllfa yn y band glei.
Brychan: "Yn sicr ni gyd wedi bod yn byw drwy berthnase hir a sylweddoli falle bod nhw'n rhy hir, neu falle bod nhw'n dod o ffordd y band"
SION: Odi hyn yn awgrymu fod cyfnod hen y band wedi benni?
Brychan:"Odi mae Jess yn mynd i fynd yn upwardly mobile,

ni'n mynd i fynd yn hollol hoyw, ni yw hoywon gwyllt Aberteifi, ma chydig o gwestiwn am Emyr, ma fe ychydig yn bi fi'n credu, so fe'n hollol hoyw"
SION: Wel jiw jiw ma Brych wedi gadael y gath mas o'r sach fan hyn, ond serious nawr odi menywod yn effeithio ar eich cerddoriaeth chi o gwbwl?
Brychan: "Yn sicr, mae nhw'n bloody stopio ti i neud e, ti just yn ffaelu meddwl, ti'n gafael yn y gitar, ti'n meddwl mae menyw yw e, nag nag nag, nawr fi'n teimlo fod e wedi sianelu trwy y channels iawn yn fy ngorff i ac mae fe'n dod mas fel cerddoriaeth... nawr allen ni ddim mynd awr neu ddwy heb chwarae gitar"
Chris:" Ifi'n seto'r larwm yn y nos i ddihuno bob awr i gael ffidl bach...ar y gitar"
Brychan" Fi'n cael ffidlen ar y bidlen" (chwerthin afreolus)
Un o'r aelodau: " Mae'n well da fi wanco na ymarfer"
SION: Faint o sperm sdachi yn ych loins chi de bois?
Brychan: "Peil, dwi fel ready mix Penparc yn carto fe o gwmpas... odych chi'n cofio'r parti gaethon ni lawr ar y trath fan hyn...rhyw nosweth bendigedig braf. Ffonies i Sion lan a gofyn iddo fe os oedde eisiau dod i gael parti, a drodd e mas yn 48 hour party a dimond Sion a fi sticodd e mas"
Chris: "Fi odd y boi drefnodd e so...."
Brychan: "Ie ti odd y boi ath gartref unweth odd hi'n dywyll"
SION: Dyna'r diwrnod gore yn yr haf ( oriau o atgofion hollol anweddus ac na ellir ei ailadrodd fama yn anffodus)
SION: I fynd a chi' nol drwy'r blynydde nawr te pryd ffurfwyd Jess?
Brychan: "Weden i fod Jess wedi ei ffurfio bytu 1983, pan odd fi a Emyr yn yr ysgol...dath yn whar i rownd a gwerthu lot o offer cerddorol inni.. dath Chris aton ni wedyn...yr ymarfer cyntaf gaethon ni odd fi Chris ac Emyr a Rhodri Bowen.. yn sied wair yr Hendref..odd lot o llygod yn hedfan mas o'r gwellt achos bod ni'n chwarae mor uchel, a'r peth cyntaf chwareon ni gyda'n gilydd fi'n credu odd 'Peter Gunn'.. oedd e'n swnio cystal, odd y byg da fi, odd Brych moyn chwarae'r bas, odd Emyr isio chware'r gitar.. chwaraeon ni gynta ar clos Penlan a doth tua hanner cant o bobol lan yn eu ceir, tua ugen o geir yna ac oedden nhw i gyd yn eistedd ar eu bonnets yn gwylio ni a pedwar can o'n ni'n gwybod..Golgothan Sgrin, Cultcan, Sanctuary, Golgothan Sgrin odd y gan gyntaf inni sgwennu, oedd oboutu King Lear, noson mas ar y Heath gyda King Lear.. chwareon ni lot wedyn yn pybs lleol, joiniodd Owen yn Hydref 1987"
Ma beth yw atgofion roc and rol.
SION: Jess oedd y caset cyntaf.
Chris: " Fi'n credu mai ar y caset cyntaf droiodd y caneuon mas yn agos i beth oe'n ni'n meddwl fydden nhw achos odd dim lot o greadigrwydd da aelodau eraill y band amser 'ny, ond fi'n credu fod e'n beth da fod pawb yn sticio ei ors mewn, ffordd hynny dy'wr caneuon ddim i gyd yn swnio run peth"
SION: Brychan, shwt ma perthynas cerddorol ti a Chris wedi datblygu?
Brychan: "Fi'n credu erbyn hyn bod ni wedi dod i nabod steil ein gilydd shwt gymaint ni'n gwybod pryd i gynnig syniad a pryd i beidio"
Chris:" Lan hyd nawr yn sicr, fi'n credu bod cerddoriaeth Brychan dros y blynyddoedd wedi bod lot mwy gwreiddiol na cerddroiaeth fi, mae cerddoriaeth fi wedi bod lot mwy amlwg yn Jess lan at nawr a mae hynny'n rhywbeth fi'n teimlo yn ddig iawn amdano, dyle cerddoriaeth Brychan wedi bod yn y band.. bydd typyn bach o enaid yn y gerddoriaeth byddai'n dod lan a o nawr ymlan a llai o eneidiau pobol eraill"
SION: Ti'n cael dy ddylanwadu'n gerddorol yn hawdd, os bigi di record lan a ti'n licio rhywbeth arno fe fydd e'n ymddangos yn dy gerddoriaeth di?
Chris: "Mae hwnna wedi bod yn broblem yn y gorffennol, ond so fe'n digwydd dim rhagor chos fi ddim yn gwrando ar dim byd,

## Datblygiad cerddorol:

**SION:** Chi'n gallu teimlo wrth wrando ar y band fod pob un wedi tyfu, ichi wedi toddi eich steil cerddorol i mewn i'ch hunen chi wedi datblygu i fod yn gerddorion safonol iawn.
Chris: " Y peth am bytu Owen a Emyr yw dy'n nhw ddim yn sgwennu caneuon, mae nhw rhy ddiog.. dusty dapps a Abacus, yddou gan yna yw'r unig ganeuon mae Owen ag Emyr wedi cael unrhyw dylanwad yn ngwraidd y gan.. pan dath Owen aton ni oedd Owen wedi datblygu bach yn fwy cerddorol na ni; ar y cychwyn nag oedd Emyr na Brychan yn gallu chwarae gitar, ond erbyn hyn fi'n credu bod ni wedi tyfu lan yn gerddorol da'n gilydd, ni wedi dysgu lot wrthon gilydd..na be sy'n neud e'n fand go iawn, ti'n gweld lot o fands, just croud o session musicians yw nhw a dyw e ddim yn teimlo fel band, mae pobol yn gweud ti'n gwybod na un peth mae nhw'n disgwyl i weld.. yw bod popeth mor dynn, byti bod y gallen ni chwarae gyda'n gilydd heb edrych na clywed y llall.."

## Stiwdio Penlan: Cartref Ysbrydol Jess

"..fel ti'n gweud mae steil yn hynen gyda ni o achos bod ni'n hala shwt gyment o amser gyda'n gilydd.."

Stiwdio Penlan lle mae Jess yn 'byw', yn nol Brychan " Fi'n dod lawr yma bytu 11 o gloch y bore a ddim yn gadael tan 10 o'r gloch y nos". Fan hyn mae pob can Jess erioed wedi ei greu. Disgrifaid o'r stiwdio: cwpwl o soffas, teledu, VCR, cwbwl Monopolys, cwbwl Nintendos,storws ar lawr uchaf adeilad ffarmn nifer o garpedi ar y llawr " I socan y swn Lan", insulation yn y to, 1 K PAa monitoring, desk 18 into 18 into 2, calendrau VIZ, posteri Jess,holl offer Jess " Diolch i deulu Penlan, sydd wedi rhoi lan a ni cyn hir a son nhw wedi rhoi bil lectrig inni mewn pum mlynedd"

## ARWYR CUDD JESS RHIF 1

" Y boi sydd wedi helpu ni fwya dros y blynydde yw boi o'r enw Hubert Mathias o PA Rocyn.. ffordd mae fe wedi helpu ni yw mai fe yw ein peiriannydd Sain ni, mae fe wedi tyfu lan dan nhi mewn ffordd yn yn swn yni'n creu, mae fe'n nabod ein caneuon ni i gyd, ac mae fe'n gwybod beth i bwysleisio a phryd".
Chris: " mae lot o bobol wedi gweud o mae PA Rocyn yn rhoi sain da ichi a ddim i bandie erill, a ni'n trial ecsplenio iddyn nhw heb swnio'n arrogant..yn ni wedi fforco mas ar yr offeryne ac ni'n gerddorion safonol, ti'n ffaelu creu rhywbeth da allan o rhywbeth shit"

odd e'n digwydd rhyw flwyddyn yn nol fel esiampl, can fel er enghraiff oeddwn i wedi cael fy nylanwadu'n fawr gan Jean Loves Jezebell ti'n gwybod eitha rip-off a gweud y gwir, ond dyw e ddim yn digwydd ar y tap newydd hyn...hefyd mae pethe ni wedi sgwennu wedi apelio mwy at y gyneulleidfa a dim apelio aton ni"
SION: Yr ail gaset odd Y Gath, caset diddorol welodd Jess yn datblygu'n fand mwy technegol..swn ffres iawn ar y pryd defnydd o lleisiau cefndir.
Brychan: "Y gobaith yw pan bod gwaith gyda lot o lleisiau bod e'n uchel yn y mics a bod nhw'n flaenllaw iawn.."
Chris: "Fi'n credu ti'n gweld ar Paris Hotel, y lleisiau cefndir yn dod yn amlwg".
SION: Symud ymlaen o'r 'Gath'z, nethoch chi cael çyfnod hirach wedyn rhwng ny , rhyddhau sengl Jiwlia Gitar a wedyn rhyddhau ' Hyfryd i Fod yn Fyw'
Brychan: " Seni wedi cael yn ffordd fydden ni byth wedi rhyddhau 'Hyfryd I Fod Yn Fyw' achos oni ddim yn hapus o

**ARWYR CUDD JESS RHIF 2**

Emyr Garnon James, gitar tech cyflogedig y band, tiwnio a gofalu am gitars Jess ar daith ac yn ystod gig.

gwbwl gyda swn yn llais i arno fe a wedd Fflach a rhai aelodau o'r band eisiau er mwyn dal y farchnad Nadolig, oni ddim yn gweld bydde hynny yn effeithio ar yr hir werthiant, ac onisie bod yn hapus da fe, fi'n meddwl mae fe'r peth

gwaethaf naethon ni erioed
Chris: Oedd hwnne'n gamgymeriad mawr, ag oedd hwnna'n gyfnod rhyfedd iawn yn y band, lot o bobol yn siarad tuol i cefne pobol eraill, oedd e ddim yn amser iachus iawn, mae pethe lot yn well nawr fi'n credu...mae lot o geiriau ar Paris Hotel yn affecto'r teimladau adeg ny"
SION: A! diddorol (Lot o chwerthin dwl) na mae fe! achos fi wedi bod yn gwrando a trio pyslo mas y geirie, gwrando ar Hyfryd I Fod Yn Fyw annodd iawn meddwl beth oedd y concept tu ol yr album, fi'n methu cael esboniad er enghraifft o Julia Gitar.
Brychan: "Mae un o nifer o ganeuon ni wedi sgwennu, sy'n golygu fawr dim byd, ond fod phrases o fewn y gan sy'n ddwfwn iawn, wedi gweud hynna rhaid dweud ar ol recordio rhywbeth bytu 3 gwaith fi di gwrando ar y Gath, fi'n credu fod hyn yn wir am aelodau eraill y band hefyd, unweth ti di mynd trwy'r broses o wrando ar rhywbeth shwt gymaint yn y stiwdio wrth ei greu e ,ti'n bennu ag e'n gyfangwbwl wedyn"
Chris" Ti Just ishe mynd i bisho, unweth ma fe lawr ma fe lawr am byth, a wedyn ti'n gorfod chware nhw drosto a drosto, mae'n afiach, a wedyn ti'n chwarae caneuon newydd i bobol, ti'n rialyn mwynhau, a ma nhw just yn ishte yna'n meddwl ' O.. beth yw hon, soi wedi clywed hwn o'r blaen, o diyr well ifi fynd am beint"
SION:n Symud mlan i heddi nawr lle maeJess arni ynghyswllt, cerddoriaeth, iaith y geiriau a delwedd ar lwyfan?
Brychan: " Fi'n credu yn y gorffennol fod gormod o bethe wedi bod yn mynd mlan yn cerddoriaeth Jess, dim digon o gyfle i wrando ar bethau'n unigol, ac yn sicr o hyn ymlan bydd y caneuon lot mwy sbars, yr un maint o betahu'n mynd mlan ond dros gyfnod bach yn hirach efallai, neu'r fformat yn wahanol"
Chris: " Fi'n meddwl bod drums bas a gitar fformat wedi mynd yn dated, lets face it mae roc a rol yn boring, ond sdim un ffordd elli di wneud rhywbeth newydd, mae eisiau concept newydd a mae Jess yn chwilio amdano fe"
SION: Be fel hyn (Taro byrddau a pint glassess cyffredinol), ie ond amser iti'n dod i'r sefyllfa byw mae lot o bobol eisiau clywed bach o roc and rol yn dyn nhw?
Brychan:" Ie ond mae lot o bobol eisiau clywed rhywbeth gwahanol hefyd"
SION: Symud ymlan at y peth Saesneg yma, mae lot wedi beirniadu Jess am na alln nhw fynegi eu hysbrydoledd yn Saesneg.
Brychan: " Wel o ran yn hunan Sion.. dwi'n lot mwy cyfforddus yn SAasenog o rhan sgwennu a cyfleu teimladaŭ, mae lot mwy o eirfa da fi a lot mwy o ddawn gyda'r geiriau, mae lot o b0obol weedi bod yn dod lan ato fi a gweud 'Brychan fi'n credu bod chi'n colli tipyn bvach yn Saesneg'...ond dwi'n credu mae'r problem ywe gyda nhw yw bod nhw ddim yn gyfarwydd a Jess yn sasneg"
Chris: " Y ffordd fi'n cyfansoddi caneuon mae nhw i gyd yn cael eu gemni yn Saesneg, ac os ni'n neud nhw yn Gymraeg mae'n rjhaid inni eu cyfieithu nhw, mas o'r 150,000 caneuon fi di neud 'Ymgeleddwch' odd yr unig gan fi di greu yn Gymraeg.. fi yn credu fod y Gymrag yn ffitio'n gret i Roc and Rol mae'r cytseiniad yn galed, ond just mae canu'n saseng yn naturiol if, mae rhaid ifi weud os ddaliwn ni ganu'n Gymrag a dim ond yn Gymrag fe fyddwn ni'n dal i chware'n cocie'n hunen mewn 20 mlynedd a dim arian i ddangos am ny"
Brychan: " ..Steddfod bob blwyddyn, a gweud y gwir wrthot ti mae bob Steddfod fi'n wneud, fi'n gobeithio ma'r un diwethaf fydd e, achos fi'n gobeithio fyn ni off yn wneud e rhywle arall.. drycha ar y Manic Street Preachers, mae nhw'n vanu'n Saesneg ac mae pawb yn gwybod bod nhw'n dod o Gymru"
SION: Beth am sioe lwyfan Jess, mae llawer wedi sylwi ar newid dramatic yn ddiweddar.
Brychan: " Y sioe diweddaraf wneuthon ni, oni'n teimlo ma beth ma Jess amboiti oedd y gig wnaethon ni yn Theatr Mwldam Abertieifi, be wnaethon ni pryd ni oedd dysgu cover versions Clash, edrych ar lle oni'n chwarae a gweld beth odd yr adnodde oedd ar gael, fel y sgrin sinema, a meddwl am y cymeriuade odd i ddod i'r cyngerdd yna. A agethon Eurwyn Penlan a'iu gyfaill i wisgo lan fel menyowd a chario chris drwy'r gyneulleidfa, oni ishe gwneud gymaint o bethau oni'n gallu odd yn mynd i droi penne pobol"
Chris: "Oedd e'n sioe dros dwy awr, oedd e'n mwy na just gig oedd e'nm mwy o variety show"
SION: Son am soiau, shwt enjoiocchi Camre Cain Rhif 1?
Brychan: Yn fawr...ytn y South Bank, roedd y gyneulleidfa yn avent guarde a fi'n credu fod Jess yn avant guarde.. halodd e fi i edrych ar pwy gyneulleidfa ni ishe.. yn sicr dros y chwe mis diwethaf ni wedi cael mwy o wefr o wisgo lan, drwy fod yn rhywbeth ni ddim, ni'n hoffi rhoi'r act ymlaen, ni wedi dod yn rhywbeth mwy lliwgar, cyflawn"
Chris: " Wnes i ddim mwynhau rhif 1 gymaint a ni, oedd e'n ecsact iawn, ddim yn roc and rol iawn, fi'n credu fod Jess yn mynd o fod yn rhywbeth ecsact i fod yn rhywbeth mwy rhydd, mwy naturiol"
SION: Wel diolch am fod mor rhydd da fi heno
Brychan: " Iechyd da"
Chris:" A toast to absentn ffriends, mae'n meddyulie ni gyda fe"
SION: Ie yr hen green willie.
Brychan: " Y cariad a fe"

# CRACYR CRAI




crai

ONE STYLE

"INTERNATIONAL STRUGGLE"

LP / CASET



BOB DELYN A'R EBILLION

"GEDON"


CASET / CD

HEFYD

Y BRODYR "FEL Y MAE" 9 O GANEUON NEWYDD SBON!

A CHASET NEWYDD HANNER PEI

CRAI ● CANOLFAN SAIN ● LLANDWROG ● CAERNARFON ● GWYNEDD
(0286) 831 111



# A5

Y newyddion syfrdanol fod Johnny 'R' yn gadael A5, ffans y Telfforddyddion yn ystyried gwacter ystyr, ond yna yn cael ar ddeall mai cychwyn ei brosiect cerddorol ei hun oedd y Cappo Walchmai, ac nad oedd A5 ac unrhyw fwriad i ddod i ben o gwbwl. I'r gwrthwyneb mae'r awenau bellach yn nwylo dwy o rappers mwyaf secsi Mon, Marian o Walchmai a Suzanne o Gaergybi, ac mae'nt newydd rhyddhau yr ardderchog 'Adroddiad Du' ar sengl, can a recordwyd gyda chymorth Rachel Carpenter (Wmffre Hargwyn FFem). Dyma rheswm da iawn i Soth gael sgwrs hefo un o aelodau'r A5 'newydd' a chlywed beth ydi'r crac. Mae yna dri dirgelwch mawr yn y byd yma pam fod pobol bob amser yn ffonio pan ydachi chi yn y bath, sut fod pobol yn meddwl fod Niwcliar yn syniad da a beth yw A5?.LLwyddodd Soth i ddal Marian un o'r aelodau mewn caffi ym Mangor.

Soth: Pryd ymunesd di a A5?
A5: Marian: " Blwyddyn yn nol ar ol yr arholiadau"

Soth: Sut mae dod yn aelod o sefydliad mor grwfi ag A5?, dyma ffantasi gyfrinachol nifer fawr o brif gerddorion Cymru, ydi'r broses yn ymylu ar y masonig, oes rhyw deml ddirgel yn nyfnderoedd metropolaidd Gwalchmai?.
A5: Marian: "Dwi'n licio cerddoriaeth Gymraeg erioed, roedd Huw fy mhrawd yn nabod Johnny so dyma fo'n gofyn os oeddwn i isio bod mewn grwp, o'ni wedi pasal gwneud grwp yn hyn ac o'ni'n hapus i joinio grwp.. mae John yn dallt fwy na fi"
Yn amlwg tydi hi ddim mor annodd ac y bydde rhywun yn ei ddychmygu i joinio A5, anghenion 1. Byw yng Nghwalchmai 2. Brawd o'r enw Huw.

Soth: Pwy ydi'r aelodau eraill?
A5: Marian: " Suzanne o Gaergybi a John"

Soth: Oeddet ti wedi clywed stwff A5 cyn ymuno hefo'r grwp?
A5: Marian: " Oeddwn, oni'n meddwl fod o'n hollol wahanol i be dwi di arfar glywad"

Soth: Be sydd wedi digwydd rwan hefo y split rhwng y Pregethwr a A5, oes yne gysylltiad cerddorol o gwbwl, fyddwch chi' ddim mewn gwirionnedd mewn cystadleuaeth a'ch gilydd?

A5: Marian: " Mae Pregethwr yn dawns a mae John yn mynd i ffordd ei hun, yn fwy hard hitting, dani'n fwy canol-y-ffordd"

Soth: Canol Y Ffordd!? (Sothsiocsiom)
A5: Marian: " Tasa math newydd o gerddoriaeth yn troi fyny (yn dod yn boblogaidd imi gael cyfieithu fama) fasan ni'n trio fo"

Soth: !!!( y meddwl Sothaidd diniwed yn methu dygymod), Be, canu gwlad rhywbeth?

A5: Marian: " Os 'di Johnny'n deud iawn de". Do fe lefarwyd yr union eiriau hyn.
Soth: Iesu! Johnny 'R' hollbwerus, 'Big Brother'?
A5: Marian: Ychydig yn bifish " Be mae o'n i ddeud sy'n mynd fel arfer, fo di'r Big Boss, dwi'n nabod o erioed, mae o'n foi brill"

Mae'r 'R' addoli yma yn nodwedd reit gyffredinol ymysg pobol o'r ardal sydd wedi ymwneud hefo fo, sy'n i nabod o orau, mi ddylai hyn wneud i bobol sydd wedi bod yn

feirniadol o Johnny 'R' feddwl ychydig o leiaf, toes yna ddim cwestiwn i'w ymdynghedaeth ddidwyll i'r sin gerddorol ym Mon.(pa sin gerddorol yn Mon? - Gol)

Soth: Nol at A5, rho 'chydig o gen inni ar stwff diweddaraf sgen A5 i'w gynnig.
A5: Marian: " Adroddiad du, ddaru ni recordio yn Stiwdio Tafarn mis dwytha, mae'r gan yn son am 'peer group pressure', wnes i fwynhau 'Adroddiad Du', mae o'n mwy serious na stwff arall ni...neges yno fo.. mi ddaru Rachel Carpenter o Hwmffre Hargwyn (rhaglen deledu) joinio ni i wneud Adroddiad Du'"

Soth: Ar sut fath o stwff mae A5 yn gwrando?(holl ddisgyblion cerdd Cymru lle mae'ch note books chi?, ... ies ies ies ar be mae A5 yn gwrando, lawr ar bapur o'r diwedd tecstlyfr cerddorol y dyfodol...
A5: Marian: "Pob dim"
AAAAAAAAAAAAAHHHHgGGGGGgG y gyfrinach allan o'r diwedd.

Soth: Yn dal 'chydig yn ecseitid ar ol hynne. Ti'n son am Peer pressure a pethe felly, stwff pobol ifanc ydi hwn ynde, teeny-ddiwylliant?
A5: Marian: " Pobol Ifanc ydan ni ynde...haws inni ddeud be di'r pwyse sy' ar bobol ifanc lly, cyffuriau, pwyse gan ffrindiau, bwlis, heddlu cudd"

Soth: Ti'n dechrau swnio'n wleidyddol rwan.
A5 : Marian: " Mae'r laith yn bwysig inni, agos i'n clonne ni, os na wnawn ni rhywbeth, toes yna ddim laith yn mynd i fod" Hei ! Cymdeithas Yr laith fel hyn ddyle chi fod yn siarad.

Soth: Beth am wleidyddiaeth Parti Butane?
A5: Marian: " Sion a Stwmp yn dod o Walchmai, just drws nesaf, fedran ni ddim gadael iddo fo fod". Dwi'n siwr mai ar ddadleuon fel hyn y cychwynnwyd yr terfysg yn LA haf yma...sy'n dod a ni at nodwedd arall o A5 sydd wedi bod yn rhan o'r myth am y band.

Soth: Mae cerddoriaeth A5 yn awgrymu Bronx, Slang, Violence, croenddu, point blank, ' high' caethiwed anarchyddol cyfalafiaeth rhemp metropolaidd yr 21 ganrif, ydi hyn yn eich ysgogi chi?
A5: Marian: " Mae'r geiriau just yn dod yn naturiol..grwp merched ydio, pobol arall sy'n licio meddwl ' y bronx aballu'. Di genod yn cael dim byd yn y SRG, dynion yden nhw i gyd, yr unig un sy'n sefyll allan ydi Jaci Williams, laff ydio"

Soth: So un myth yn brathu'r llwch, o leiaf yng nghyswllt bwriad y band, ac un arall yn cyfodi megis ffenics, nid obsessiwn afiach gan Johnny 'R' o gwbwl, band post-ffeminist, ffeminist, mae'n rhaid imi weld hyn. Sgennoch chi unrhyw blannie i gigio'n fyw?
A5: Marian: " Na..mae diffyg technoleg yn Sir Fon a gigs, mae pobol Mon yn meddwl mae cerddoriaeth Cymraeg ydi Dafydd Iwan, fasa neb yn dwad.. pobol yn deud,'O! welsh music' a dene fo, dwi'n mynd i Coleg Pencraig er enghraifft a sneb di clywad am Beganifs hyd-yn-oed, dwi'n deud bod fi mewn grwp cymraeg a mae nhw just yn sbio arnaf i fel...yyyy!?"
O rhan sin mae Mon yn ddiffeithwch, mae hyn yn hollol annesboniadwy plis dilynwch. O.N mae 'perfformiad' cyntaf A5 yn fyw ar Dachwedd y 12fed eleni yn yr Octagon, yn bacio Jina.

Soth: Disgrifia union anian cerddoriaeth A5 imi?
A5: Marian: " Dance..a rave, dani di bod ar hyd y llinnell yna..technotronic, prif nodwedd"


Soth: Pa gyffuriau mae A5 yn eu cymryd?
A5: Marian: "Ni!!!!!, dani i ddim yn cymeryd dim. Marian yn sbio arnaf i fel taswn i newydd ofyn os oedd hi wedi llofruddio rhywun yn ddiweddar. Mae hwn yn gwestiwn rhyfedd o amhoblogaidd a hynny gan aelodau cymdeithas sydd yn mynnu fod rhyw gyffur neu'i gilydd yn ganolog i bob digwyddiad cymdeithasol.

Soth: Sgenti rhywbeth controfersial iw ddeud?
A5: Marian : " Nagoes". Dyma'r peth mwyaf anfoesol o gontrofersial imi ei glywed ers amser hir.

Soth: Tasa A5 yn gigio, sut fath o sioe fasa'n ni'n freintiedig o'i weld?
A5: Marian: Yn amlwg yn mwynhau'r cysyniad fel fydde rhywun wrth freuddwydio am yr amhosib" Technology a goleuadau ymhob man, pawb yn gwisgo lycra, pawb yn dawnsio, pawb yn cael laff.. ym..fasa loads o bobol yn gorfod mynd ar y steg ond fasa hynna ddim yn gweithio nafase, fasa'n na ddim lle i'r technoleg wedyn" (wow dwyster y cwot yma yn arffwysol, meddyliwch). Mae'r gig yma'n swnio'n reit baradwysaidd yndydi?

Soth: Ok Ok i gloi ti'n cyfadda mae teen ydi cerddoriaeth A5, mae hyn felly yn golygu y bydd y baich yn cael ei basio i aelodau newydd lau wrth ichi heneiddio, hynny yw a'i concept y band sy'n bwysig neu'r aelodau?
A5: Marian: "Na dangos profiadau ni mae'r gerddoriaeth, dwi'n gobeithio neith o ddatblygu hefo ni"
Mae'r cwot dwytha yn ddadlennol, mae nifer yn teimlo mae cryfder mawr A5 ydi eu gonestrwydd o rhan mynegiant (os nad hefyd y gerddoriaeth, ond mae honno'n ddadl hir),er fod y cliches cyffuriau yn dod allan weithiau ac efallai mae dylanwad Johnny ydi hynny, does yn hollol amlwg ddim ymgais yma i guddio pwy ydan nhw, genod ifanc o Fon. Mae myth y band wedi tyfu oherwydd anwybodaeth, yn sicr tydi'r genod ddim yn wyllt, violent a hedonistaidd fel roeddan ni fod i gredu o'r caneuon, ond mae'n fwy na thebyg fod 'normalrwydd' a didwylledd yr aelodau newydd ond yn mynd i adio at y chwedl yw **A5**


**Owain Meredith**



# RECORDIAU MYNYDD DU

**Soth yn sgwrsio a Mike Evans perchennog Recordiau Mynydd Du, y dyn fu'n gyfrifol am gystadleuaeth roc genedlaethol Gymreig yn 1987 roddodd gyfle i 500 o grwpiau gystadlu am 250 o lefydd ar lwyfannau yng Nghaerdydd ag Abertawe.**

Jac-Y-Do newydd rhyddhau eu caset cyntaf ' Cyfri Saith' ar y label a Lle Anghysbell yn son i bod nhw ar eu ffordd draw yno, mae'n amlwg fod cynlluniau cyffrous ar droed. Cafodd Soth sgwrs a Mike Evans, syn berchennog ar y label hanesyddol hwn, sydd bellach yn cyflogi chwech




AMANDA NORMANSELL

Mae Plasty Dinefwr yn hên hên safle o awdurdod yn ddwfn yn un o goedwigoedd dyfnaf Dyfed mae tri chant o geirw yn y parc sy'n amgylchynu'r plasty. Lle annhebyg i stiwdio complex a label hynod o gyffrous fydde rhywun yn meddwl, ond ym Mhlas Dinefwr y byddech chi'n darganfod pencadlys Recordiau Mynydd Du, y label sy'n cael y sylw cyntaf yn ein cyfres newydd yn bwrw golwg ar labeli amrywiol Cymru. A o bobol. Mae Recordiau Mynydd Du wedi bod yn weithredol bellach ers undegsaith o flynyddoedd, o bosib ein bod yn ymwybodol o'r label yn ein hisymwybod oherwydd recordiau 'label du' enwog Ryan y perfformiwr o Glanamman, yn y saithdegau. Mae'r cysylltiad a Ryan yn allweddol i ddeall hanes sefydlu a chychwyn y Cwmni recordio oherwydd mai Ryan ar y cyd a'i rheolwr, Mike Evans, fu'n gyfrifol am gychwyn y label yn 1975, Ryan ei hun dewisiodd yr enw. Yn ol Mike Evans, a fu'n rheolwr ar Ryan rhwng 1973 a 1977 ar ol ei gyfarfod ar gyfer cyfweliad radio, "..roni'n ymwybodol nad odd Ryan, odd yn ffigwr mor amlwg wedi recordio llawer o gwbwl ". Cyfeiriwyd gweithgaredd cynnar y label drwy post box yn y Mumbles lle roedd Ryan yn byw, arferid heirio stiwdio fel roedd angen, ag unig fwriad ag athroniaeth cynnar y label oedd rhoi cyfle i Ryan a artistiaid oedd yn gysylltiedig a Ryan recordio ynghyswllt hyrwyddiaeth rheoli broffessiynol Mike Evans. Rhwng 1975 a 1977 recordiwyd 5 record. Y record gyntaf i'r label ei rhyddhau oedd la la la yn 1975 sef record sengl i gydfynd a pherfformiadau pantomeim Ryan ac iw werthu yn unig i'r cyneulleidfaeodd hynny. Yn yr un flwyddyn y rhyddhawyd y ddwy record Ryan At The Rank Vol1 a Ryan At The Rank Vol 2, dwy record chwedlonnol sydd yn ymgorffori'r label i nifer fawr. Fe fwriadwyd Vol 1 fel y record oedd yn tanlinellu dawn Ryan gan "..ei fod ar ei orau o flaen cyneulleidfa fyw ". Atodiad o waith byw a gwaith stiwdio oedd Vol 2 er fod y ddwy record wedi eu rhyddhau fel cyfanwaith. Yn 1976 daeth albym Triban allan, "Coming Down In Three Part Harmony", grwp gwerin adnabyddus fu'n weithgar iawn hefo Ryan a record gan yr Evan Williams singers. Yn 1977 daeth cyfnod argyfyngus i'r label gyda marwolaeth sydyn a dirybudd Ryan, roedd holl gynlluniau tymor hir y label wedi ei ymgorffori i yrfa Ryan a bu bron i'r label ddod i ben. Fodd bynnag wedi i Mike Evans dreulio cyfnod yn anialwch asiantaethau artistiaid cerddorol, yn methu'n llwyr a darganfod artist proffesiynol y gallai ei hyrwyddo, dechreuodd edrych unwaith eto ar label Recordiau Mynydd Du fel label go iawn yn yn hytrach na atodiad i becyn rheolaeth. Yn ystod 1978 a 1979 gwnaeth 18 mis o ymchwil i hynt a helynt labeli recordiau Cymreig y 60au a'r 70au fel Cambrian a Dryw oedd wedi gorfod terfynu eu gweithgaredd oherwydd problemau ariannol. Daeth i'r casgliad fod y cwmniau wedi cychwyn ar sylfaen economaidd gref drwy hyrwyddo Corau yn bennaf ond wedi cymeryd camau mwy mentrus trwy hyrwyddo artistiaid llai poblogaidd yn bellach ymlaen a gwneud colledion ariannol gormodol.

Penderfynnodd Mike Evans ar bolisi newydd i Recordiau Mynydd Du yn 1979 sef recordio Corau, a Chorau yn unig. Mae'n ddiddorol nodi fod Mike Evans wedi bod yn trafod a derbyn cyngor gan Huw Jones yn Sain yn ystod y cyfnod yma, "..mae gen i barch mawr at Sain, rwy'n gweld label Mynydd Du fel fersiwn Iaith Saesneg o Sain" meddai. Yn 1986 a swyddfeydd llawn amser yn Walter Street Abertawe, cymerwyd cam newydd i'r label wrth iddyn nhw brynu 'Stiwdio Symudol' (mobile). Y nodwedd bwysicaf yn y datblygiad yma oedd fod y label bellach ag adnoddau 16 trac ar ben yr offer 'flight cased' stereo arferol. Yn 1986 roedd prif lif gwaith y label oedd bellach wedi rhyddhau tua 200 o recordiau yn dal yn waith Corawl, ond fe ddechreuodd Mike Evans wneud gwaith recordio ar gyfer y teledu hefyd, yn bennaf i Derwen, man gwmni Opus 30, y Cwmni recordio gwaith clasurol, gwnaeth y label waith recordio Kiri Te Kanawa yn y Barbican a theithio i'r Eidal hefo Dennis O'Neill ymysg pethau eraill. Oherwydd y gwaith teledu symudodd y label o Walter Road i Blas Dinefwr oedd yn brysur yn dyfu'n ganolfan gyfryngol fawr.

Yn ddiweddar iawn symudodd Derwen yn nôl i Gaerdydd ac fe gymerodd Recordiau Mynydd Du, drosodd yr holl adnoddau technegol a adawyd ar ôl ym Mhlas Dinefwr, er fod y 'mobile' yn dal i fod yn allweddol, i lwyddiant y label, (bellach mae gwasanaeth mobile Recordiau Mynydd Du yn cyd-weithio'n agos gyda Fleetwood Mobile, cwmni mobile o Lundain a ddeilliodd o weithgaredd Fleetwood Mac ac sydd wedi recordio y mawrion gan gynnwys Madonna, Springsteen a McCartney), mae ychydig mwy o sefydlogrwydd yn nodweddu'r label bellach wrth i'r complex ym Mhlas Dinefwr dyfu. Un o sgîl-effeithiau'r sefydlogi ydi fod Mike Evans yn cymryd mwy o ddiddordeb mewn rheoli a hyrwyddo artistiaid unwaith eto. Coron ar ddatblygiadau hyrwyddo diweddar Recordiau'r Mynydd Du ydi rheoli gyrfa Amanda Normanfell, yr hogan ysgol 15 oed o Fargoed a ennillodd cyfres HTV "Stars In Their Eyes" yn Chwefror 1992 ac sydd newydd seinio hefo TelStar, er gwaethaf cynnig gan Sony. Mae record gyntaf Amanda yn dod allan ar y degfed ar ugain o Dachwedd ac fe ddilynir y lawnsio gyda ymgyrch deledu fydd yn werth £150,000. Dyma benllanw undegsaith mlynedd o weithgaredd amrywiol gan Recordiau'r Mynydd Du. Yn ol Mike Evans athroniaeth fawr y label bellach ydi "..gwasanaethu'r anghenion yng Nghymru a bod yn 'springboard i ddenu'r labeli mawr..mae terfyn ar pa mor bell all Black Mountain fynd ag artist, fydden ni wrth fy modd yn cael ymholiadau gan fandiau dwy-ieithog, ond fi'n credu fod bandie Cymraeg eu hiaith yn cael digon o siawns i recordio, y gap yn y farchnad fi'n anelu ato fe yw bandie sy'n chwilio am y cysylltiad yna..y break yn Llundain". Mae Mike Evans yn awyddus i son am y pecyn mae Recordiau Mynydd Du yn ei gynnig ar hyn o bryd sef del, sy'n cynnwys amser ac adnoddau stiwdio am ddim, sustem ddosbarthu annibynnol a hyrwyddo yn Llundain, ar yr amod fod yr artist yn cytuno i ystrwythur rheoli ar yr un pryd. Werth trei swni'n meddwl!. Cysylltwch â Mike ar 0558 823 864 neu gyrrwch Ddemo i; Recordiau Mynydd Du, Plas Dinefwr, Llandeilo, SA19 6RT FFacs: 0558 823 867.





llun: Peter Telfer BNC

# BOB DELYN A'R EBILLION

## -RHYS MWYN YN HOLI

Dwy flynedd yn y stiwdio, "Mi fydd yr LP allan erbyn y Steddfod", ond doedd neb yn fodlon manylu pa Steddfod yn union, 1991, 1992 neu 2001?.I'r rhanfwyaf o'r bands sydd yn gorfod recordio a chymysgu albym o fewn pythefnos o amser stiwdio mae dwy flynedd yn swnio fel paradwys; rhywbeth sydd yn eiddo i popstars yn unig "amser" (h.y ail recordio os oes yna gamgymeriad !!).O'r diwedd mae CD newydd Bob Delyn " Gedon" yn y siopau ac yn ein tywys trwy ganeuon newydd (a hên), mae Twm Morus-

**"Poeni Dim"**

"Y gân gyntaf ydi 'Poeni Dim' sydd yn gan serch ac i raddau yn gan wir a ame ei chefndir hi yn fwy tebyg i ffilm yn y Gorllewin Gwyllt- y boi yma yn cael perthynas hefo hogan sydd ddim yn plesio'r teulu, na'r pentref, na dim byd a mae'r pentref yn codi fel un dyn yn ei erbyn o a hi. Mae teulu'r boi a'r capel i gyd yn ei erbyn o- fath a pentref yn y Gorllewin Gwyllt. Mae gennyt ti un dyn yn sefyll dros ei ddaliadau yn erbyn pawb arall a mae hi yn gorfod dengyd yn y diwedd hefo'r sipsiwn a mae o yn aros i dderbyn realtwch. Felly mae o fyny ichi, yn union beth mae o'n feddwl. Dyna arddull y caneuon yma i gyd, mae yna rhyw wirionnedd ynddyn nhw.Mae nhw'n golygu rhywbeth imi- ond mae o fyny i'r gwrandawyr ddeall be mae'n nhw isio ddeall ynddyn nhw."

**Llys Ifor Hael**

" Mae hon ar alaw draddodiadol, sef 'Aberystwyth' ond bod ni di newid hi a wedi gwneud hi'n fwy o gan bop. Di ddim yn gan werin ddim mwy. a mae hon yn son am y gorffennol, a nid yn unig am y gorffennol ond am rhywbeth neu rhywun yn dyheu amdano ond am ryuw rheswm yn methu cyrraedd ato.Son am fynd i'r lle uchel, sy'n thema reit gyffredin drwy'r caneuon yma- mynd i rhywle uchel i sbio lawr ar rhywbeth ond dwyt ti ddim yn cael mynd lawr ato. I lawr yn y Dyffryn mae "Llys Ifor Hael' sydd yn cynrychioli- pob math o bethau- diwylliant y gorffennol, gogoniant yr iaith- rhywbeth piciedi mewn ffordd- hiraeth, colled a phob math o betahu.

**Ffair Y Bala**

Mae hon hefyd ar ffurf traddodiadol, achos mae ei phennillion hi ar ffurf hen bennillion Cymraeg. Mae hon yn wahanol mix- mae'r dechrau yn wahanol iawn . Felly beth mae rhywun yn wneud drwy hynny ydi dehongli can mewn ffordd wahanol.Erbyn hyn dwi'n meddwl bod yna ormod o dechnoleg, sampls ac yn y blaen er bod rheina o bethau da ni wedi recordio go iawn .Anaml iawn da ni'n defnyddio sampls o bethau sydd ddim yn bod,mae nhw'n cael ei chwarae gan rhywun o'r grwp. efallai o gyfnod yr albym cyntaf a bob dim wedi cael ei gadw- hynny yw mae gennan ni swn pibau,- does gennai ddim pibau yn y grwp bellach, felly dani'n creu rhywbeth newydd allan o beth ddaru Dafydd Watts y pibydd chwarae dwy neu dair blynedd yn nol- a mae hhynny yn dderbyniol gennai- cyn belled a bod hynny ddim yn mynd yn rhy bell,felly a bod ni'n creu synnau sydd ddim yn bod- a da ni wedi gwneud ychydig bach o hynny. Dwi mewn dau feddwl ynglyn a'r peth.Mae isio cadw parch i chwarae'r grwp. Os wyt ti'n mynd i'r stiwdio a chreu can hefo adnoddau stiwdio wel, di ddim yn gan fyw nAcdi?

### Os wyt ti'n mynd i'r stiwdio a chreu can hefo adnoddau stiwdio wel, di ddim yn gan fyw nacdi?

mi gafodd 'Ffair Bala ei chreu yn y stiwdio- oni ddim yn y wlad ar y pryd ond naethon nhw (y grwp) rhoi rhywbeth ilawr ar dâp- hanner electronig a hanner beth roeddan nhw wedi chwarae go iawn.Dos i nôl a gwrando ar ypeth, wedyn ycwanegu cord yn yr ystafell fyw yn nhy Gorwel. Felly mi gafodd hon ei chreu mwy neu lai yn y stiwdio- a wedyn y daeth hi'n 'gan fyw'.

**Corsydd Fyrjinia**

Joc ydi hon mwy na heb, a dydan ni ddim mor hapus hynny hefo hon;achos dydi heb droi allan mor dda a hynny.Geiraiau gwyrion ac alaw yr un mor wirion! naethon ni hon mewn nososn, dwi'm yn cofio'n iawn, ond mi gath hi fynd ar yr albym yn y diwedd.Mae hi'n rhyfadd dweud y gwir- hanes hên wêr o Geredigion--neu Fyrjina- dibynnu sut wyt ti'n gwrando ar y peth ond mae'n rhaid i rywun wrando ar y geiriau er mwyn dallt y peth .Dameg neu chwedl ydi hi a mae na lais Americanaidd ar y diwedd yn cysylltu Ceredigion hefo Fyrjinia.

**'Mil Harddach Wyt'**

Mae hon yn gan lot mwy moel a llwm- a gwag o ran cerddoriaeth na'r caneuon eraill a mae hynny'n fwriadol

oherwydd y geiraiu.Mae hon yn son am bres-a chariad- a rhyw- ac yn son mor bwysig ydi cariad a rhyw a mor ddibwys yn y pendraw ydi pres i gymharu hefo cariad a rhyw. Hynny yw mae pres yn uffernol o bwysig yntydi ond mae'n rhaid peidio rhoi pres o flaen pob dim arall a cael dy hudo ganddo fo, a colli beth sy'n bwysig yn dy fywyd di.
A mae hi'n gan chwerw hefyd ar yr un pryd- a mae hi'n gan erotig- a dweud y gwir erotig ydi hi yn y bon

**A mae hi'n gan chwerw hefyd ar yr un pryd- a mae hi'n gan erotig- a dweud y gwir erotig ydi hi yn y bon**

ond ichdi wrando ar y geiriau yn iawn, yn enwedig y benill olaf un- "Cladda fi yn Finestre.Y dyn sych o dan y ser" - reit? Mae fyny i ti ddeall be ydi "sycha"- di cael ei sugno'n sych mae o ynte!- mewn gwahanol ffyrdd.Mae'r darn sax yn y diwedd yn un o'r darnau gora ar yr albym yn fy marn i.

**"Beaj Iskis"**
Can Lydaweg ydi hon, a dwi'm yn meddwl bod na'r un grwp arall wedi canu can Llydaweg yng Nghymru- a mae hon yn hollol wreiddiol. Dwi'n canu hon hefo Nolwen, sydd yn ferch i gantores werin enwog o Lydaw.Mae hi'n son am siwrne ryfadd sef y cymeriad yma sy'n dod dros y mor i Lydaw ac yn hudo merch ifanc i ffwrdd; gyda rhyw ddawns rhyfedd.Ella mae 'angau' ydi o- ond dydio ddim yn berson o gig a gwaed mae hynny'n sicr- a da ni ddim yn gwybod os ydi hi'n marw ae peidio ar y diwedd ynte!.Dwi'n rhugl yn y Llydaweg -ti'n cyfansoddi yn y LLydaweg fel wyt ti'n cyfansoddi yn y Gymraeg ar ffordd fydda'i yn cyfansoddi ynte, i radau helaeth iawn,fydd hefo odlau. Hynny ydi mae'r odlau i raddau yn penderfynu hyd y llinell y ryddmau a hyd-yn-oed yr ystyr ambell waith. Mae odl yn dy hel di mewn ffordd arbennig heb ymwybod weithiau. Mae hon yn frawddegau hir, deialog ydi hi rhwng yr hogan ar boi rhyfedd yma. Dyna ydi 'Beaj Iskis' drwydi hi i gyd.

**"Seans Syr Watcyn"**
Can ddoniol arall ; a amae'r geiraiu er bod nhw'n dda, yn eiraiu ar gyfer can comisiwn ar gyfer y teledu a felly dwi ddim yn holllol hapus hefo'r geiriau- ond ame'r syniad yn reit ddifyr. Syr Watcyn Williams Wyn yn !9fed Ganrif, a'i wraig yn cynnal seans i weld beth sy'n mynd i ddigwydd i Gymru yn y dyfodol. Mae hi'n cychywn hefo'r canu operatic yma- hefo Nolwen yn canu- a wedyn mae nhw'n sbio mewn i ddrych hyd felly, a gweld y dyfodol yn dwad! Son am y dyfodol fel mae Syr Watcyn yn ei weld o drwy ei ddrych hyd, a mae'r dyfodol yn dod i mewn i'r ystafell,- sef yr Ebillion- yn wyllt ac yn fudur ac yn ddi fanars, ac yn chwil ac yn dweud bob math o bethau ti ddim i fod i ddweud yn y G19- a mae ei wraig o wrth ei bodd ond dydi Syr Watcyn ddim!. A mae hon ar alaw draddodiadol hefyd, ond bod y darn cyflym ar alaw arall sy'n ffitio yr un chords- a mae hynna yn rhywbeth dwin licio neud hefyd. Sef defnyddio alaw draddodiadol a gwneud alaw hollol newydd ynte hefo'r un chords fel fod y naill yn ffitio dros y llall.

**"Tren Bach Y Sgwarnogod"**
Son am dren bach y sgwarnogod yn dod i achub y Byd, a mae pawb isio mynd ar y tren yma, ond nid pawb sy'n cael mynd ar y tren- mae'n dibynnu pwy ydyn nhw.Mae hi'n reit syml, a a me'r pennillion yn syml a mae nhw'n dweud rhywbeth rhyfadd iawn, sef fod y tren ma yn dod i achub y Byd a fod yn rhaid cael clustiau hir cyn cae mynd arni. Beth sy'n ddifyr yn hon ydi fod Gareth Sion a Martin Beattie yn canu, a mae Nolwen yn canu am y sliwod sbontus ond dydy nhw ddim yn cael mynd ar y tren achos ydi'w clustiau nhw ddim digon hardd a hir.
Rhywbeth felly ydi'r gan yma-can rhyfadd iawn iawn iawn.

**'Blodau Hearn Blodau glo'**
Can gomisiwn arall ydi hon , eto ar gyfer fideo i'r teledu am yr Wyl Flodau yng Nghlyn Ebbwy wedyn mae'r un broblem a'r gan arall, mae'r geiriau ychydig bach yn rhy gyfeiriadol- yn cyfeirio at un peth yn ormodol ond ella bysa rhywun sy'n gwrando ar y gan am y tro cyntaf ddim yn deall hynny, ddim yn sylweddoli .Ond mae hi'n gan wahanol i beth fydden ni'n sgwennu, fedrai ddim sgwennu am bethau fel yr amgylchfyd, neu achosion da a phethau mor amlwg a hynny. Mi fydda i yn sgwennu gyda delweddau eraill o gwmpas y pwnc gan obeithio bod hynny yn gallu cyfeirio at y trydydd byd neu beth bynnag ond mae hon yn cyfeirio yn fwy penodol at yr Wyl Flodau a beth oedd hi'n feddwl - twristiaeth; pobol yn anghofio am y gorffennol; chwys, budreddi, pobol yn gweithio drwy eu hoes yn y pyllau glo, a fod yr Wyl flodau rhywsut yn cuddiad y cwbwl- o dan flodau tlws.
Ond oherwydd bod hi'n gan gomisiwn a finnau wedi ei chanu hi mor dda ar y pryd don i ddim isio ail wneud y llais a rhoi geirau newydd achos bod hi'n swnio mor dda felly, a mi wnaethon i ei chadw hi yn y diwedd.

**" Y Swn"**
Mae hon allan ers blynyddoedd ond bod ni wedi ei hail chymysgu hi a mae hi'n fwy grymus rwan fel can. Mae hi wedi bod yn reit ysgafn yn rhai o'r mixes sydd yn gweddu i'rgan fel ar BOB DOLIG.Maer'r geiriau ru'n fath a bob-dim- son am ddisgwyl am y swn- beth bynnag ydi'r swn- pob dim da- pob dim da dani'n ddyheu amdano fo, pob dim ti heb gael yn dy fywyd ond ti'n gobeithio gei di o. Neu pob dim wyt ti'n i ofn.

**"Y Clerwr Ola"**
Can am y clerwr yn yr hen ystyr felly, sef y bardd crwydrol nu y cerddor crwydrol oedd yn mynd o le i le i ganu- byscar. Mae hon yn gan 'fawr'iawn, can sy'n cwmpasu lot o bethau. Son mae hi yn y bon am y clerwr olaf yn marw, a bod ni'n clywed fod y clerwr ola wdi marw- mae na rhywbeth yn fytholegol am yr holl beth- fatha chwedl fawr- a

**pobol yn anghofio am y gorffennol; chwys, budreddi, pobol yn gweithio drwy eu hoes yn y pyllau glo, a fod yr Wyl flodau rhywsut yn cuddiad y cwbwl- o dan flodau tlws.**

mae yna, er enghraifft, son bod yna fil o bobol yn dod i gladdu'r boi yma a ti'n gweld y mil o bobol yn dod dros y bryn yn eu dillad duon. Fel tysat ti'n son am y Byd yma heb fiwsig ynddo fo. Mae'r clerwr ola wedi marw a fydd na yr un can yn cael ei chanu eto a dim miwsig na dim byd- rhywbeth felly sydd ynddi. Mae hon ar ddiwedd yr ail hanner- a dydi ddim yn hollol anobeithiol ond mae hi'n gan reit drist ynte- fel dychmygu sut le fysa'r Byd heb fiwsig ynddo fo.
O enau'r delyn yr esboniadau fuo'n ni i gyd yn disgwyl amdanynt cyhyd. am beth mae Bob Delyn yn canu, cyn heddiw mor annealladwy a Bob Dylan ei hun. ■

**Mae "Gedon" allan ar gaset a CD ar label Crai nawr.**

# Maffia Mr. Huws

Cofio gwrando ar Cadw Reiat a chlywed am helyntion yr anfarwol "Bethan Maffia Meniac"? Yr Anti-Maffia Meniacs a'u gwobrau hael i Lucinda Enson? Daeth hyn oll fel canlyniad i waith di-flino grwp o hogia Pesda. Y grwp gorau erioed yn ôl rhai, yn bendant y grwp mwyaf poblogaidd ar un cyfnod yn hanes y sin. Ychydig o riffs trwm, ychydig o ddylanwad reggae, a llais arbennig Hefin Huws, ychydig o agwedd, pawb ar y dôl a digon o amser i bracteisio: dyma oedd y blwprint ar gyfer un o grwpiau gorau yr 80au. Secs sumbols yn ol rhai, ffyliaid yn ol eraill, mae nhw yn dal i jamio weithiau o amgylch Bethesda ac mae nhw i gyd yn weithgar iawn mewn gwahanol feysydd o ddiwylliant Cymraeg. Chwarae fel band unwaith eto? Mae hi'n eithaf anhebygol, er i bawb fuo ym mharti Meic Stevens llynedd gael sioc bleserus....

Erbyn hyn mae Hefin Huws, lleisydd rhywiol y band, yn brysur iawn gyda'i waith unigol sydd wedi deillio ar dair record hir hyd yma. Mae wedi bod am gyfnod yn ddrymiwr i'r grwp pync o Llanfair Caereinion, yr Anhrefn, ac hefyd mae yn brysur iawn gydag un arall o fandiau Bethesda, Bob Delyn a'r Ebillion. Prin yw'r unigolion sydd a bodolaeth ddeuol mor eithafol o weithgar a Hefin Huws, o na fydded mwy yn debyg iddo.

'Roedd Neil Williams yn un o uchafbwyntiau y sin Gymraeg ac mae o yn debyg i weddill y band yn dal i fyw ym Methesda. Mae yn gweithio i gwmni theatr Hwyl a Fflag fel cynhyrchydd llwyfan felly fe ddaw yn amlwg mai symud o un maes i gyfrwng arall yn unig y mae. Braf yw medru dweud felly nad yw dawn cerddorol y gwr arbennig hwn wedi ei wastraffu.

Mae'r Brodyr Jones o Fethesda yn rai o hynafwyr y sin Gymraeg ac erbyn hyn yn fwy gweithgar nac y buont erioed. Mae Gwyn Jones yn drefnydd i Gymdeithas Cerddorion Bethesda ac yn hynod brysur gyda chynllun cywaith Canolfan y Tabernacl ym Methesda (gafodd sylw hirfaith yn Soth ychydig fisoedd yn ol). Bu Gwyn hefyd yn pannu'r crwyn i'r Anhrefn am gyfnod!! Mae nawr yn cyd weithio gyda Sian James, cantores Bwchadanas, ac mae wedi bod ar y llwyfan yn ddiweddar gyda Jarman a'i sioe newydd.

Dal i arbrofi mae Sion Jones, aelod arall o'r Anhrefn (yr eironi mwyaf yw fod Rhys Mwyn wedi gwneud yn fawr o feirniadu Maffia ar un adeg ag eto yn fodlon iawn derbyn cymorth hogia Pesda), ac efallai mai Sion yw'r aelod sydd wedi teithio fwyaf rhwng bandiau. Mae'r Jecsyn 5 wedi bod yn lwcus iawn o'i waith ar hyd yr amser ac yn sgil partneriaeth Gareth Sion a Sion Jones daeth y glasur rocaidd "Annibyniaeth Barn". Mae wedi bod yn rhoi cyfraniadau go helaeth i waith diweddar Jarman hefyd.

Bu Deiniol Moris yn fasydd selog i'r grwp gwych o Fethesda ac erbyn hyn mae'n gweithio'n llawn amser fel animeiddiwr sydd o bryd i'w gilydd yn helpu gyda fideos Fideo 9, gwych.

Ddaw cyfnod aur Bethesda ddim yn ol am amser hir iawn, nes daw band arall i ddilyn safon uchel Maffia Mr. Huws. Ond wedi dweud hyn i gyd rhaid ail-ddweud mai Ceffyl Pren oedd y band, ynde?

**HUW DYLAN**



# adolygiadau byw

## JIINA, EIRIN PERYGLUS, SIAN JAMES, A5, H3 - Octagon, Bangor. Tachwedd 12

Yn Saesneg mae logo Mai 68, cwmni hyrwyddo a rheoli a threfnu Rhys Mwyn, yn datgan 'Taking Welsh Culture out of The Twentieth Century'.Ar ol y diffyg cefnogaeth welwyd i'r gig yma mae'n bosib iawn bydd Rhys Mwyn yn gweld 'Welsh Culture' fel excess baggage i lusgo hefo fo i lle bynnag mae o'n mynd. Roedd yr Anrhefnydd mawr ei hun yn sefyll yn y tywyllwch Octagonaidd yn syllu yn anghrediniol ar yr ychydig cedd wedi mentro allan i'r Sex & Glamour Club Night a'r llai byth oedd wedi penderfynu dawnsio.Nid Anrhefn. Dyma gig oedd wedi ei threfnu a'i hyrwyddo yn rhagorol, gyda un o'r lein yps mwyaf cyffrous i gael ei rhoi gerbron erstalwm. Roedd £4 yn afresymol o rhad fe pris mynediad i wledd o gerddoriaeth. O'r nodyn cyntaf a ddatganwyd gan H3, yn un o'i gigs cyntaf erioed i'r thymp electronaidd hudolus yn golygu mai Eirin Peryglus oedd yn gorffen, roedd hon yn noson oedd yn addo ac yn cyflawni pob dim allai rhywun freuddwydio amdano. H3 yn gyffrous yn anarferol yn ddiarth, priodas hapus rhwng rythm hypnotig gitar Dylan a llais 'attitude' amatur Linda; Sian James yn llwyddo i arddangos ei holl ddoniau llais a rythm anhygoel a hynny mewn set byr, doniau amrywiol sy'n golygu fod hi'n un o'n cantorion sengl mwyaf galluog; A5 yn cael chydig o drafferth hefo setlo mewn i batrwm llyfn ond yn mynnu dangos pam y dylai'r grwp arbrofol yma o Fon ddisgwyl llawer mwy o gigs a sylw,gan gysoni dawns a rap yn llwyddiannus iawn; Jina yn rhoi perfformiad rhywiol, hyderus, grwp canol y ffordd o safon rhyngwaldol yn ddigwestiwn, ac yna'n ola Eirin Peryglus os nad yn llwyddo i'ch hudo gyda eu cerddoriaeth brydferth yn sicr yn gallu bwrw ei ffordd fewn i'r isymwybod gyda'r electro thymp oedd ar y foliwm uchaf un. Cyngerdd i adael rhywun yn ddianadl. Ond roedd y diffyg cyneulleidfa yn golygu fod gwrando ar y fath sioe yn rhoi teimlad rhyfedd iawn i rhywun, roedd o fel eistedd ar Long anferth oedd ar fin suddo, neu mewn clwb yn Berlin ar ddiwedd yr ail rhyfel byd cyn i fyddinoedd Rwsssi rhedeg fewn allofruddio pawb.Roedd yr awyrgylch mor Zero fel fod hynny yno'i hun yn ddigon i greu awyrgylch eithaf etheraidd oedd yn gwneud i rhywun deimlo fod o'n aelofd o glwb ecsgliwsif cerdyn aur. Mi roedd y camerau yno en-force ac mi allai addo ichi y bydd o'n gyngerdd special iawn ar y sgrin fach. Marciau llawnach na llawn i'r perfformwyr am gau eu llygaid a chwarae fel petaen nhw o flaen 20,000 yn hytrach na 20. Proffessiynol iawn. Roedd awyrgylch y noson yn fy atgoffa i o bwdin reis trychinebus, roedd yr hufen oi gyd yno ond lle raeth y reisys bachi gyd sydd i fod i bopio yn y popty?

**Owain Meredith**

## FFA COFFI PAWB, U THANT, ANHREFN - Samuel Beckett, Llundain Hydref 17

Wedi dyddiau o ganfasio ymysg fy nghyd-Gymru ac o edrych 'mlaen, dyma fentro ar y bys i'r Samuel Beckett yn Stoke Newington.

Nifer o wynebau cyfarwydd yn troi wrth gerdded drwy'r drws a'r cyfarchion Cymreig yn c'nesu'r galon. 'Roedd y lle'n dywyll a lot o leder du yn propio'r bar; ond heno doedd hynny ddim yn dychryn. Ffa Coffi ddaeth ymlaen gynta'. Ron i'n siomedig gyda'r perfformio statig, di-fflach, y wynebau ansicr a'r diffyg cyfathrebu a'r gynulleidfa. Byddai gair o gyflwyniad y ambell gan wedi g'neud y byd o wahaniaeth, a beth am inni gael deall rhai o eiriau'r caneuon?! 'Roedd gen i gywilydd wrth i gyflwynydd y noson - ddweud nad oedd gwahaniaeth pa iaith yr oedd rhywun yn ganu ynddi. Gwir am wn i, ond ron i wedi dod yno i glywed grwpiau CYMRAEG wedi'r cwbl!!**!? Gadawyd fi'n oer gan Ffa Coffi mae arna'i ofn; trueni achos mae'r tap diweddara' mor dda.

Yna daeth U-Thant. Dechreuodd pobl ddawnsio. Ron i'n licio tamborin y canwr ac fel roedd pawb yn y band yn amlwg yn mwynhau. 'Roedd y caneuon yn fyw ac yn rhythmig. Eto, fedrwn ij ddim deall amryw o eiriau'r caneuon (pam o pam? Ydio'n "un-cool" i rywun eirio'n glir?! Oes cywilydd gan fandiau o bwy bynnag sydd wedi mynd i'r drafferth o ddisgwyl am yr awen?!), ond o leiaf gwnaeth U-Thant inni symud rhyw ychydig a chodi'r tymheredd.

Tri chynnig i Gymro medden nhw a dyma'r cynnig gore imi - yr Anhrefn. Tydy nhw ddim wedi colli'r wefr. 'Roedd y canu'n danllyd a'r chwys yn llifo; cyflwyniadau'r caneuon yn pigo a phrocio'n glyfar a rhywsut 'roedd rhyw aeddfedrwydd yn y perfformio nad oedd yn rhan o ganu'r grwpiau eraill. Mwynheais ymweliad canwr y Llwybr Llaethog a'r llwyfan a'i ganu ysbrydoledig! "Rhedeg i Paris" a chlasuron eraill yn wych, a'r alawon newydd yn cydio. 'Roedd gwaed y Celt yn llifo drwy'r set a cherddais allan o'r lle tywyll wedi'm bodloni.

Cysgais yn y tacsi ar y ffordd a breuddwydio : gweld yr Albert Hall dan ei sang a'r "wild boys" yn puo'n Schubertaidd o'r llwyfan!?! Brysied y dydd!!

**Sian Owen**

## EIRIN PERYGLUS, NID MADAGASCAR - Canolfan Cymry Llundain Hydref 124

Roedd y lein-yp cyffrous yn addo llawer a ni chawsom ein siomi.

Ymddangosodd Nid Madagascar am y tro cynta' ers yr haf a chwaraeaon nhw set hir a diddorol. Cawsom ddetholiad o ganeuon yn y dull electronig yn amrywio o'r rhai cyflym a ffyrnig o ddawnsiadwy i'r mwy araf, lleddf a weithiau galarus. Cerddoriaeth gwreiddiol gyda melodiau dymunol a tipyn o berfformiad gweledol gan y trawiadol Dave Wrench ac un dawnsiwr arall. Cawsant ymateb dda gan y gynulleidfa, enwedig am eu fersiwn unigryw o 'Sympathy For The Devil'. Edrychaf 'mlaen at eu LP cynta' sydd ar y ffordd.

A wedyn Eirin. Eu trydydd gig mewn tair noswaith. Roeddent yn wych heno -cystal a gwelais nhw erioed. Roedd y sain yn dda, y band yn asio i'w gilydd yn berffaith a llais Fiona Owen yn hyderus, a chlir dros y cyfan. Cawsom gyfuniad o hen ganeuon a'r rhai newydd y llon a'r lleddf. Felly ochr yn ochr a 'Y Cyfarfod' a 'Trosgynnol 124' roedd 'Anial Dir' a 'Gwawd', 'Gwallgofrwydd '92' ac 'Edrychais'. Braf oedd gweld cymaint o'r gynulleidfa yn mwynhau gan ddawnsio. Roedd e'n amhosib anwybyddu'r bit hipnotig a'r melodiau gafaelgar.

I fi, uchafbwynt y perfformiad oedd fersiwn araf, urddasol o 'Cyn Symud i Ddim", clasur David R. Edwards. Ac i'r eithaf arall, 'Rhumba' y gan gyda'r lein fas fel brecdown nerfus. Gwallgo oedd dawnsio'r dorf a mawr y mwynhad pan chwaraewyd hon eto fel encore.

Felly gig wych arall yn Llundain a braint oedd cael gweld rhai o fandiau gorau Cymru ar eu gorau. Diolch iddynt am ddod mor bell a chwarae am gostau yn unig. Biti garw na fasai mwy o'r Cymru ifanc yn Llundain wedi gwneud yr ymdrech i ddod a chefnogi gwreichion prin o'n diwylliant, ond eu colled nhw oedd hyny

**Gareth Walters**

# STIWDIO OFN

Adolygiad o Stiwdio Ofn: Soth yn sgwrsio hefo Gorwel Owen perchennog Stiwdio Ofn, Rhosneigr.

**Mae'n amhosib cael gafael ar Hanner Pei, Datblygu** neu Ffa Coffi Pawb rhan helaeth o'r flwyddyn, a'r rheswm sy'n cael ei rhoi yn amlach na pheidio am eu absennoldeb ydi, 'O! mae nhw yn Stiwdio Ofn'. Ydi mae'r Mecca miwsig yma, adeilad modern wedi ei leoli uwchlaw corsydd gwyllt Rhosneigr yn Sir Fon, yn anrhaethol brysur ac yn denu rocstars fel tasa na ddim fory. Mae'r Stiwdio wedi gweld mwy o newidiadau lleoliad na'r New Age Travellers, ond y llinyn cyswllt fu Mon erioed. Mae'r stori yn cychwyn yn 1983 bell pan y daeth dau gyfaill at eu gilydd i recordio caneuon eu grwp avant guarde 'Sgidie Newydd' oedd wedi cael ei sefydlu y flwyddyn honno, Steve Hywyn Jones o Gaergybi a Gorwel Owen o Rhosneigr. Bellach mae'r ddau ddoethur yn adnabyddus am eu cyfraniad i gerddoriaeth Cymru, ond ar y pryd roeddan nhw'n ifanc ac yn llawn syniadau byrlymus, "..mi oeddan ni wedi bod yn recordio yn Stiwdio'r Brodyr yng Nghaer ac wedi sylweddoli nad oedd angen 69 trac i wneud rhywbeth o safon. Felly gyda "..caset recorder yn y bedroom", dyma gychwyn recordio a galw'r cywstiwdio yn 'Stafell Wirion'. Felly y peth cyntaf i Stiwdio Ofn recordio oedd dwy o ganeuon 'Sgidie Newydd' oddiar eu unig dap. Lleolwyd y stiwdio gyntaf yn Swyddfa Bost Rhosneigr. Roedd athroniaeth y ddau yn rhoi lle amlwg i'r Stiwdio yn y broses gyfansoddi erbyn hynny ond fe symudodd Steve Hywyn ymlaen i chwarae gyda'r Brodyr, grwp oedd newydd ei sefydlu. Yn y cyfamser roedd Gorwel Owen yn ymddiddori fwy fwy mewn cyfansoddi swn fel proses allai fod yn annibynnol o broses cyfansoddi caneuon. Gwelodd y goleuni yn hyn o beth mae'n debyg wrth gerdded heibio lard Gychod Dickies ym Mangor un noson a "..chlywed y mastiau yn ysgwyd yn y gwynt.". Yn ystod y cyfnod cynnar bu Stiwdio Ofn (Stafell Wirion) oedd a 4 trac erbyn 1984 yn recordio Demo i 'Second Thoughts' (band cyntaf Robin o Eirin Peryglus), demo cyntaf un Tynal Tywyll erioed ('Paid a Synnu' oedd y gan). Doedd yna ddim cynllun yn ol Gorwel "..ddaru fi just syrthio mewn iddo fo." Erbyn 1985 roedd y 'stiwdio' wedi symud i Llangwyllo, ac fe newidwyd enw'r fenter i Stiwdio Ofn, newid oedd yn dynodi agwedd mwy difrifol, wrth i Gorwel sylweddoli y posibilrwydd o gael bywoliaeth o'r stiwdio yn hytrach na'i drin fel hobi yn unig. Yn Stiwdio yn Llangwyllo, oedd yn adnabyddus am ei risiau serth oedd rhwng y stafell rheoli a'r stiwdio (grisiau achosodd gwymp lawer i rocstar mae'n debyg!), y recordwyd, ymysg nifer o records, stwff cyntaf Ffa Coffi- Octopws, dechrau recordio Wyau-Datblygu, Bronson a Merthyr -Eirin Peryglus, Igam Ogam - Igam Ogam a sessiwn enwog y Camelod Fflat i'r BBC. Erbyn 1988 roedd Stiwdio Ofn yn ol yn downtown Rhosneigr, dros y ffordd i Bali-Hi chipi sydd di serfio 'grease' i rhanfwyaf o rocstars enwog Cymru dros y blynyddoedd, siop sydd a lle amlwg yn y rhestr teyrngedau am ei chyfraniad hallt i gerddoriaeth yng Nghymru yn yr Ugeinfed Ganrif hwyr. Unwaith eto mae gwaith Ffa Coffi, Datblygu a Bob Delyn yn dod i'r amlwg. Yn ol Gorwel " Y tri grwp dwi wedi gweithio hefo fwya ydi nhri hoff grwp i, dwi wedi bod yn lwcus..mae gan y tri grwp yma agwedd bositif yn y stiwdio, dan nhw ddim yn dod i'r Stiwdio hefo unrhyw rhagfarnau". Erbyn 1990 roedd y stiwdio wedi symud i adeilad newydd sbon danlli ar gyrion Rhosneigr ac yn medru brolio stiwdio complex taclus a chyfforddus, yn cynnwys Controll Room 80 trac cymorth cyfrifiadurol a stiwdio braf gyda 'stafell gysur' wrth ymyl. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r Stiwdio wedi gweld cyfnod o sefydlogi; maent wedi parhau ar prosiectau traddodiadol sy'n cynnwys gwaith Eirin Peyglus a Plant Bach Ofnus wrth gwrs, ond mae llwyth o waith cyfryngol wedi dod mewn hefyd, yn cynnwys gwaith Criw Byw sy'n golygu fod oddeutu 50% o waith y Stiwdio yn waith comisiwn bellach. O ran records mae'r Stiwdio yn mynd yn fwy fwy prysur bob blwyddyn, 1992 oedd y flwyddyn brysuraf eto, blwyddyn oedd yn cynnwys recordio 'Vibroslap' Hanner Pei, 'Gedon' Bob Delyn a 'Hei Vidal' Ffa Coffi. Mae'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys CD newydd cyffrous gan Rheinallt H Rowlands (mae'n chwilio am label gyda llaw) ac mae gwaith gyda Datblygu, Jecsyn Feif, I Dot a Diffiniad ar y gweill hefyd. SOTH GWESTIWN: Beth sy'n unigryw am Stiwdio Ofn? Gorwel Owen: " Stiwdio Ofn ydi'r unig Stiwdio yn Ewrop sydd hefo cyrtens rhwng y controll room a'r stiwdio...mi nes i questionnaire bach hefo'r bands yn ddiweddar i ffeindio allan pa offer oedden nhw yn ei gyfri fwya pwysig yn y stiwdio, y list oedd, perculator, fridge,telly , sofa bed a tegell..o! a Oscar y ci yn slobro... dwi'n gobeithio nad oes yna swn arbennig ar gynnyrch Stiwdio Ofn, dwi'n gobeithio alle pobol bigo record fyny a deud fod hi ddim wedi cael ei recordio yn stiwdio Ofn yn hytrach na fel arall.. dwi'n trio cyd-weithio hefo'r bands yn hytrach na mynd a nhw ffordd dan nhw ddim isio mynd, mewn ffordd swni'n licio cael yng nghyfri yn hanner aelod gan y bands sy'n recordio". Does gan y cynhyrchydd profiadol ddim amynedd hefo'r hen ddadl ynglyn a Stiwdios yn amharu ar swn pur cerddoriaeth neu fand, ei hated quote ydi " Sut dani'n mynd i wneud hyn yn fyw?". " Os 'di bands yn son fod ganddyn nhw ofn defnyddio'r holl dechnoleg dwi'n deud wrthyn nhw i stopio iwsio'r meics.. mae pobol yn meddwl fod cerddoriaeth 1800 yn bur ond oedd Bethoveen yn remicsio caneuon Mozart ar range piano newydd oedd ar y piano erbyn i gyfnod o.. mae o fel dadl pobol yn Affrica ynglyn a camera yn cymryd dy enaid di..os ti'n cario'r ddadl i'r pen technoleg ydi offerynnau hefyd...mae ishio i bobol sylweddoli fod gwrando ar record yn brofiad hollol wahanol i weld rhywun yn fyw a dyle pobol deimlo'n gyfforddus hefo'r sefyllfa yna..y trwbwl ydi fydd pobol yn meddwl wedyn fod ti'n licio pethau clinigol a stiwdio ma lot yn credu mai dawns dwi'n i neud, ond di hynny ddim yn wir mae'n nhast i'n eclectig iawn, dwi'n licio gitar bands a phetha felly, mewn gwirionnedd dwi'n credu fod gormod o bwysigrwydd yn cael ei rhoi i'r cynhyrchydd". Bellach a'r Stiwdio wedi recordio dros gant o fands, rhanfwyaf yn Gymraeg rhai fatha Spiolt Victoria o Fetws Y Coed yn canu'n Saesneg wedi blasu troeon amrywiol a llwyddiannau fatha Michael Whitewood ennillodd y John Lennon Musician Of THe Year yn 1991 (roedd y gan wedi ei recordio yn stiwdio Ofn) mae Gorwel yn cyfaddef yr hoffai rhoi fyny ei waith a chanolbwyntio ar y stiwdio. " Dwi di dod nol rwan i fod a mwy o ddiddordeb eto mewn cyfansoddi caneuon er mod i'n dal at yng nghariad cynnar o greu swn, hefyd dwi'n meddwl mewn pum mlynedd efallai fyddai'n eistedd mewn Stiwdio Virtual Reality yn remicsio unrhyw hen record licia i, neu falle'n jamio hefo Jimi Hendrix".

# adolygiadau

## WWZZ
## "Wwzz"
## (ANKST)

Unwaith eto dim gair ar y clawr i esbonio pwy esgorodd ar y cynnyrch cerddorol yma, oes gan y bobols gywilydd?, neu ai polisi gonestrwydd newydd gan Ankst sydd wrth waith, h.y 'Dani ddim isio cidio chi folks, peiriannau sydd wrthi fama nid pobol'. Mae'n amheus gennai fydd hynt diwylliannol y Gorllewin yn newid cwrs wedi rhyddhau WWZZ, ond mae o'n ffaffin da er hynny. Roedd un o gyfarwyddwyr Ankst wedi dweud wrtha'i fod eu baban cerddorol newydd yn 'hollol wych', ar y pryd fe adawais i siniciaeth naturiol rheoli, siniciaeth a fwydwyd gan gannoedd o ddatganiadau i'r wasg gor-gamoliaethus o du'r labeli yn utgornio dyfodiad eu darganfyddiad diweddaraf (ie, mae hyn yn digwydd yn rhy aml - Gol.). Yn anffodus dyma fi'n bwyta fy nghap o achos, gan anghofio unrhyw rhagfarnau sydd gan y 'purists' yn erbyn llond ystafell o kids yn twidlo botymau ac yna'n datgan eu hunain yn gerddorion i'r byd a'r betws, mae WWZZ yn berfformiad cyntaf campus sy'n awgrymu hyder a ymdeimlad yn yr hyn mae nhw yn, ac yn gallu, ei wneud yn y stiwdio. Dio'm cweit yn ddawns sy'n 'fin y gyllell' o arloesol, mae'r arddull yn draddodiadol, yn gynnes, ac yn deud stori yn hytrach na chreu ymateb technowreiddiedig yn unig (mae'n bosib fod WWZZ yn proffwydo cyfeiriad newydd TY Gwydr yn hyn o beth) ond mae yma hen ddigon sy'n cadw diddordeb o rhan dychymyg er enghraifft y thymp hearnaidd sydd ar y gan 'Haf Braf', sampl llwyr o




un o ganeuon Cale oddiar 'Songs For Drella', cosmopolitan iawn. Mae yna feirniadaethau wedi bod ar y tap, mae cytgan 'Haf Braf' er enghraifft yn swnio fel tase diwedd y byd ar fin cyrraedd, er fod clywed lleisiau'r Cardiffiaid Gwefrllyd unwaith eto yn gwneud yn iawn am ddiflastod 'Mae'n brahaf yn yr hahaf' (canwch fel tase popeth mewn slo mo a rhywun newydd sefyll ar eich castell tywod); mae'r clawr hefyd wedi cael stic, ond dwi'n bersonol wedi ffoli ar y ffordd mae cynllun clawr WWZZ a chynllun clawr record Diffiniad, gath ei lawnsio yr un pryd, yn atgoffa rhywun o ffferins, smart 'e's' neu flychau cyffuriau trendi o Amsterdam. Yr hyn sy'n gwneud imi edmygu'r tap yma yn arbennig ydi cysondeb y safon, mae'n anodd ffeindio munud wan arno o gwbwl, a nodweddion amlwg fel dychweliad y drym bit cryf ymwthiol hyderus. Faswn i ddim yn meddwl mai delwedd gorfforaethol newydd i Ankst sy'n gyfrifol am y diwyg gwahanol iawn a ddefnyddnyddiwyd i farchnata'r ddau dap diweddaraf ganddynt, yn hytrach dyma'r ddau fand 'Ifanc, newydd a risgi' cyntaf i Ankst eu seinio i raddau helaeth, ac er fod ymlyniad traddodiadol Ankst i'r sin ddawns bob amser yn mynd i fod yn ddadleuol, does yna ddim cwestiwn fod WWZZ yn ddarganfyddiad gwerthfawr. Caset gwerth ei chwarae'n uchel yn nosweithiau'r hen Vick.

**Owain Meredith**

## SORIANT
## "Tria Welti"
## (CRAI)

Daeth y tap yma allan adeg yr Eisteddfod ble'r ennillodd y grwp ynghyd a Dylanwad Drwg o Eifionnydd y gystadleuaeth grwpie pop. Grwp roc trwm ei arddull ydi Soriant sy'n hannu o ardal Bangor. Y gan sydd yn agor y caset chwe can yma ydi " Dinas Ddisglair" , can sy'n agor hefo riff drom iawn ond yn newid pan yn cyflymu i ddull mwy meddal a melodaidd; can braidd yn wan ydi hon ar y cyfan, hefo'r pennillion yn rhagori ar y gytgan, e.e" adnabod y strydoedd fel cefn fy llaw, mae nhw'n medru bod yn dda i mi, byth yn meddwl am fynd allan tan ymhell wedi naw, byth yn cau welwch chi" a'r gytgan " Cer a fi cer a fi cer afi lawr i'r ddinas", braidd yn undonog ar ol ychydig ond can sydd ar gyfer ffilm braidd yn 'Eye of the tigerish' efallai. Mae 'Gwaith' yn hollol wahanol, hefo'r allweddellau a'r gitars yn cyfuno'n brydferth mewn darnau meddalach, " Dwi ddim eisiau bod yn bluen newydd yn dy het a dwi ddim eisiau bod yn destun trafod i ti a'r genod", a'r gytgan hyfryd "Dim gwaith yn dy groen ti'n gwybod be dwi'n ddeud rwan" dim gwaith yn dy groen, can sy'n ymosod ar losers a phobol ddiog yn gyffredinol hwyrach.

Yn y gan 'Un Dewis' mae cryfder Glyn fel lleisydd yn dod i'r amlwg, can gyflym a melodaidd a'r dryma ar y tap, fy hoff gan oddiar y tap," Ond ar ddiwedd y gan Un Dewis sydd ar ol , paid mynd ymlaen, rhaid mynd ymlaen i'r diwedd a gorffen be ti'n dechrau".

'Ti'n rhannu' sy'n agor ochr dau lle mae Glyn yn swnio fel Hefin Huws neu heb fod yn annhebyg, a mae'r grwp yn cyflwyno swn mwy masnachol sydd yn beth calonogol, eitha' trwm yw hon gyda'r darnau

# aDOLYGiADAU

tawelach yn cael eu harddangos lle mae 'Tone' yr allweddellydd yn byseddu'n brysur. 'Weithiau' ydi'r gan nesaf ac mae'n faled araf sy'n cyflymu i'r gytgan, " Rwyt ti'n mynd a fy ngadael i bywyd yn wag hebddo ti mae fy mhen yn troi fel chwyrligwgan, dwi'n teimlo fy mod i'n disgyn fel milwr yn y frwydr, disgyn ac yna marw mae fy nghalon yn llawn o dyllau,lle saethwch fi", can gryf gyda lleisiau da ynddi. Y gan sy'n cloi'r tap yw 'Brenin neb', "WWww (oooohh yn ambell i le yn lle WWW), ti'n gwneud fy mhen i fewn" yn un o'r llinellau sy'n aros yn y cof yn arwain at gytgan " Ti'n frenin neb, meistr ar ddim, rheoli'r gwacter mwy na'r gofod", can ac arddull 'soft metal' iddi ydi hon hefo'r allweddellau yn cael chwarae rhan bwysig ac mae rhaid rhoi sylw i'r allweddellu gan yr enwog Tone, ffynci iawn Tone. Casgliad gwych eto wedi ei anelu'n bennaf at ddilynwyr 'soft metal' yn fy marn i. Mae'n rhaid camnol Crai am fentro arwyddo'r ddau grwp yma ac yn fy marn i mae Crai wedi gwneud penderfyniad iawn hefo'r Addewid a Soriant fel eu gilydd, cynhyrchu o safon uchel, grwpiau addawol iawn. Yr Addewid yn fuddudgol o hyd motobeic.

**Nigel Trow.**

**PREGETHWR**
**"Hollywood Mics Hunlle Pontcanna"**
**(R-BENNIG)**

Ewoc Nec Benoi ffrinds, ail gynhyrchiad y Pregethwr, alias Johnny 'R'? Mae hynny'n ymddangos fwy fwy annhebyg, dyma Jonny 'R' go iawn go wir, wedi ail-afael yn yr hyn gychwynnodd o hefo Criw Icon yn 1989 ac wedi




cyrraedd lefel uchel o gyfforddusrwydd yn ei allu i gynhyrchu dawns masnachol. Tydio'n ddim cyd-ddigwyddiad na syndod fod gwenwyn geiriol yr 'R' yn erbyn y SRG yn cynyddu efo rhyddhau Pregethwr II, dyma record sy'n profi unwaith ac am byth pa mor unigryw ydi sefyllfa Johnny 'R' yn y Gymru Gymraeg, fel rhywun sy'n creu records sydd ar y ffryntlein o safbwynt moderniaeth, record sy'n gadael gweddill yr SRG mewn cae anghyfforddus o wahanol i'r mainstream Ewropeaidd; o bosib yn y cyswllt yma mai cyfnod 'gwan' Jonny 'R' oedd ei ymwneud uniongyrchol a'r A5, pryd yr aberthodd ei ddidwylledd am ymgais i grafu i'r SRG gyda 'chydig o weirdness derbyniadwy. Dyma danlinellu fod modur lliwgar yr 'R' wedi troi oddiar hen lon fudur yr A5 ac rwan yn teithio'n gyflym a phwrpasol hyd Autobahns masnachaeth, masnachaeth sy'n unigryw llwyddiannus a hollol self-indulgent pan yn cyffwrdd a'r Dawns sin ganamlaf. Does rhyfedd mai un o brif feirniadaethau Jonny 'R' am yr SRG ydi ei fod yn clici ac yn snobyddlyd, mae'n hollol amlwg mai wedi ei drwytho yn y dawnsdechno mae Johnny o'i eni, sin sy'n enwog am ei natur ddemocrataidd, Djs yn gwasanaethu'r dorf drwy beilio record ar ol record ar ol record ar y trofyrddau, ffasiynau'n mynd a dod mewn ychydig eiliadau o ddawnsio ecstatig i gynyrch sy'n amlach na pheidio yn ddi-enw a di-wyneb. Os am adlewyrchiad delweddol arwynebol i D.I.Y Johnny does ond angen cymryd stoc o'r pentyrrau o ephemera ardderchog sydd 'di casglu o amgylch ei recordaiu dros y blynyddoedd. Felly Pregethwr II, record glwb prif-lif grefftus, (nodyn APumpaidd, dwi'n dal i feddwl fod Johnny ar ei hapusaf yn samplo ebychiadau genethod, beth am lond record tro nesaf?), mae'r elfennau i gyd yma, y breakbeat, yr egwyl ar B.P.M ectasi syn gadael yr SRG nol yn y Slow Tar. O safbwynt cymhariaeth a gweddill cynyrch dawns Cymru mae Pregethwr yn rasio Ty Gwydr ar hyd Autobahn realiti ac dwi'n ofni fod Criw Caerdydd wedi cael eu gadael i grio ar yr hard-shoulder. C.I.B ddall mae'n siwr a llygaid P.S.V yn llydain ar agor gobeithio. Dwi'n credu mae'r hyn sydd wedi bod yn gyfrifol am newid polisi Johnny 'R' yn ddiweddar yma wrth ei fod wedi cychwyn ar ei brosiect Pregethwr ydi'r ffaith ei fod wedi sylweddoli o'r diwedd mai nid fo sydd y tu allan i'r SRG ond mai'r SRG sydd tu allan i un o brif fynnegiannau cerddorol Ewrop. Mae'r ffans i gyd yn edrych ymlaen i weld ffatri walchmai yn cynhyrchu B.P.B 120 yn ystod 1993.

**Owain Beltram ap Pickering**

**YR ADDEWID**
**"Rhyddhad"**
**(CRAI)**

Casgliad chwe chan yn rhuo fel eich hoff Harley Davidson ac yn drewi o olew a gawn gan y Cofis Cariadus eu hunain sy'n golygu mai cerddoriaeth riff a'i sylfaen yn 'thrash metal' sydd yma ar y cyfan.
Cicstartir "Rhyddhad" gyda'r gan 'Yr Addewid' gyda'r allweddellau Alice Cooperaidd, cyn i'r gitars

# aDLYGiADAU

brwnt ymuno yn yr hwyl yn rasio ac yn gwrthdaro i'w gilydd bob yn ail. Mae hon yn gan egniol ac amrwd a geiriau da iddi, yn pwysleisio'r ffaith fod 'y dyfodol yn ddiogel yn nwylo'r plant'. "Gwynebu'r tan, Gwynebu'r fflam, rhaid cael achub y plant di-nam". Agorir 'Dan fy ngroen' gyda'r swn gitar awyrennaidd uffernol yna a geir efo rhyw bedal effeithiau neu'i gilydd ' Bombs away Ginger', fu bron i Biggles neidio allan atof o'r stereo, felly gair o gyngor, lluchiwch y pedal hogia, ond y newydd da ydi - dydi'r swn yma ddim yn rhy flaengar yng ngweddill y gan ac felly cyn y diwedd mae hon yn cael y bodiau fyny; mae cytgan dda ynddi hefyd," Ti'n gofyn beth ydi'r boen sy'n torri trwy fy nghalon, chdi sy'n creu'r boen ti'n sbio dan fy nghroen". Cyflym ac effeithiol tu hwnt, gwych.' Yr unig un sy'n troi' sy'n cloi'r ochr gyntaf, can sy'n dechrau hefo'r bas yn rymblo yn llawn o fryntni prydferth ac mae'r gitars yn flaengar yn hon eto a'r geiriau cofiadwy; "Mae dy wyneb yn fudur ond mae dy galon yn lan, mae dy gorff yn berffaith ond mae dy feddwl ar dan" sy'n arwain at y gytgan " Yr unig un sy'n troi atot ti heno ma a dwi ddim yn poeni am y baw".Can wych a neges wleidyddol gref am y di-gatref, yr orau ar y tap yn hawdd. Chwech chwech chwech gwaedgafraidd o gan. 'Gad fi lonnydd' ydi'r gan gyntaf ar ochr dau, can wych hefo riffio trwm a'r lleisydd yn son am rhywun wedi ei ddefnyddio ond fod y person bellach wedi gweld y goleuni, e,e" Wedi bod yn wan, ni fyddaf wan byth eto, wedi bod yn ddall ond nawr dwi'n gweld y byd yn glir" Bardd???. 'Dyddiau'r fflam' sydd yn gadael y casgliad yma i lawr, mae hon yn wirionneddol wael, cerddoriaeth 'hancesboced dwylodrosy moraidd', hynny yw y faled soppy yna sy'n cael ei recordio gan filoedd o grwpiau roc trwm, ond mae pawb yn gwybod ei bod hi'n union yr un gan. Cwestiwn i'r hogia,'Ydi Bob Geldof wedi bod yn helpu chi hefo'r geiriau'?, e.e" Dyma fi'n sefyll wrth ochr yr afon yn sbio draw i ochr y lli, mae'r plant bach yn dod wrth law ac eistedd a gofyn cwestiwn i fi, does neb yn gwybod pam fod plant yn marw yn mreichiau ei mam", sbwriel go iawn. Mae'r tap yn gorffen hefo'r gan "Rhaid ifi gael rhyddhad", sydd yn gwibio'n gyflym o'r dechrau i'r diwedd ac mae yna ddarn allweddellau da ynddi hefyd. "Does neb yn dod er mwyn eich achub chi, neb yn gwrando ar eich cri ond un peth ar eich meddwl chi rhaid fi gael rhyddhad". Casgliad gwych a'r cynhyrchu yn dda, oherwydd fod y gitars yn flaengar yn y cymysgiad, prynwch neu byddwch edifar.

**Nigel Trow**


★Sachaid!

**Nofelau**

Y Twll yn y Wal / Dafydd Andrews £5.95
Cansen y Cymry / Marcel Williams *£4.95*

**Cerdd**

Holl Ganeuon Dafydd Iwan £7.95
Stori'r Preseb / Robat Arwyn *£4.95*

**Antur i blant**

Prosiect Nofa / Andras Millward *£3.95*
Seros 2 / Martin Davis *£2.95*
Lliwia'r Lliwiau / Liz Cole *£1.65*

**YFED**

Tafarnau Cymru / Elin Llwyd Morgan *£4.95*

**Dyddiaduron**

DESG *£5.95*, POCED *£2.95*, ADDYSG *£3.95*

**Saesneg**

Snowdonia, Myth & Image
Anthony Griffiths *£4.95*
The Academic Inn / Leopold Kohr *£6.95*

*Mynnwch gopi o'n Catalog newydd rhad!*

y Lolfa
CYHOEDDWYR
TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE *ffôn* (0970) 832 304 *ffacs* 832 782




# OES GENNYCH CHWI STORI DDA?

**YDY'CH MAM YN RHEDEG MARATHON?**

**YDY'CH NAIN YN DAL I DDAWNSIO DAWNS Y GLOCSEN?**

**YDY'CH BRAWD YN CADW BOA CONSTRICTOR?**

*RHOWCH WYBOD I*



HEL STRAEON

**GRONANT, CAERNARFON**

**LL55 1NS**

**FFÔN (0286) 77595**

# Annwyl Sothach!............

Pen Coed
Ffordd Parc Nant
Llanfairfechan
Gwynedd
LL33 0SP

Tachwedd 11eg 1992

Annwyl Sothach!
Wedi darllen llythyr Sion Lewis o Fangor yn rhifyn Hydref o'r Cylchgrawn, gallaf ond dweud 'Clywch clywch!.Rwyf wedi bod o'r farn fod obsesiwn rhaglenni dyddiol Radio Cymru a'r gorffennol yn syrffedus. Er, rhaid rhoi hyn yn ei gyd-destun- ydi grwpiau ifanc Saesneg Cymru yn cael sylw yn ystod y dydd ar Radio Wales?.Rwy'n amheus. Fel atodiad i'r llythyr gan Sion Lewis, beth am ystyried rhoi cefnogaeth i'r ymgyrchoedd am orsafoedd radio lleol a sicrhau nad ydi eu polisiau cerddorol yn syrthio i'r un rhigol a Radio Cymru?. Darllenais yn ddiweddar bod yna ddiffyg o Gymru yn barod i wirfoddoli i weithredu Radio Maldwyn-da chi, deffrwch a chefnogwch!Mae trigolion Ceredigion yn ffodus i gael Radio Ceredigion- gwnaf yr un apel at ieuenctid yr ardal honno- cefnogwch neu collwch yr orsaf. Yma yng Nghwynedd bydd yr ymgyrch am orsaf radio brwdfrydig, egniol a Chymreig yn ail gychwyn cyn bo hir.Gadewch inni ddangos ein bod yn weithredwyr da yn oguystal a chwynwrs.

Yn Gywir

Dewi Wyn Jones

**Y Popstars yn cael 'Hate Mail'!!!!**

O 'My God', mi glywsoch chi am ser teledu yn yr America yn cael eu saethu (na nid Ronald Reagen), a'r stalkers arswydus? Wel, mae'r fersiwn Gymreig wedi targedu o leiaf tri o unigolion roci Cymru, ac wedi gyrru llwyth o lythyrau ffiaidd a gwenwynig atyn nhw *(mae Soth wedi cael cip-olwg ar enghreifftiau ac mae nhw'n siriys iawn)*. Yn ol Johnny R *(fu'n adnabyddus yn y gorffennol am yrru llythyrau annifyr at bobol ond sydd bellach yn edifeiriol )* mae wedi derbyn saith llythyn uniaith Saesneg o Gaerdydd sy'n gwneud iddo deimlo'n anghyfforddus iawn oherwydd eu natur fygythiol. Mae un o'r llythyrau i Johnny yn dweud fel a ganlyn: "Cardiff Caveman", 'ere again Ive got you well sussed mate So watch out". Mae'r llythyrau mae Mark Lugg, un o bobol creadigol Ty Gwydr, wedi eu derbyn yn fwy bygythiol fyth, un ohonnynt yn awgrymu bygythiad corfforol hyd-yn-oed. Yn ol Mark Lugg mae bellach yn ddwys ystyried mynd a'r mater at yr Heddlu. Mae si fod Stephan Cravos hefyd wedi derbyn llythyr annifyr. Fe fyddai Soth yn gwerthfawrogi clywed gan unrhyw bop star arall sydd wedi derbyn llythyrau cachwraidd tebyg.

ANFONWCH EICH LYTHYRAU I :
**ANNWYL SOTHACH!**
**8 RHES VICTORIA, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3AG**

MAE CROESO I CHI GAEL CYHOEDDI EICH LLYTHYRAU YN DDI-ENW OND MAEN RHAID CYNNWYS ENW A CHYFEIRIAD CYWIR GYDA UNRHYW GYFRANIAD.

## FFIDBAC: SOTH!

Mae'r cwynion ynglyn a Beganifs wedi bod yn gwneud y rownds ers dipyn rwan, mae 80 % o'r cwynion yn deillio o genfigenn 17% yn deillio o bryder digon teg fod Beganifs er yn grwp hynod o addawol wedi cael eu heipio gormod yn rhy gynnar efallai, a'r 3%???.Petai llygedyn o wirionnedd yn y cyhuddiadau ynglyn a snobyddiaeth honedig aelodau'r band ayyb, yna be uffarn mae pobol yn ddisgwyl. Ydi'r ffaith fod rhywun yn canu mewn band Cymraeg yn golygu ei fod o am neidio i'r gwely hefo'r rocstar home grown nesa ddaw heibio. Ydi cwmni' uchelfannau siwperstariaeth gerddorol gymraeg(yr hyn yr ydym oll yn breuddwydio amdano nawr ac yn y man) i gyd yn lyfi dyfis ac yn ffrindiau mynwesol bore oes seliwyd mewn gwaed? Wel nachden siwr. Mae llythyr Dewi Wyn Jones yn chydig o mixed bag. Os ydi Radio Cymru yn obsesd hefo'r gorffennol fel mae rhai cyfeillion yn awgrymu yna IAHW beth am barti; fe fyddai hyn yn golygu fod bys ein gwasanaeth diwyfr genedlaethol yn gadarn ar byls yr ugeinfed ganrif hwyr. Onid ydi pob blydi record sy'n dod allan bellach yn retro ac yn obsesd hefo'r gorfffennol?. Faint o relesease o re mixes allwn ni gymryd?Onid ydi stetions radio a theledu prydain yn jam pacd hefo Beatles a golden oldies gen ddylyfol tebyg? Oes rhaid inni gael dau foi yn gwisgo fyny fatha genod er ,mwyn cael rehash taccy dociwmenytari o ABBA. Obsesiwn hefo'r gorffennol fydd un o brif nodweddion hanesyddol yr ugeinfed ganrif hwyr iw marc mai wyrds. Mae'r llythyrwr ar dir cadarnach pan y rhefra am ybusnes gorsafoedd radio yma, dyma ddigwyddiad na fu llawer o ffan ffer iddo ac or herwydd ddaru ni gyd ddeffro un bore a ffeindio allan yn sydyn iawn fod nifer o orsafoedd radio 'lleol' wedi sbrowtio fatha madarch, yn cael eu rhedeg gan bobol oeddan ni ddim yn nabod, ac yn cynnig gwasanaeth toeddan ni heb ofyn amdano fo.Mae isio ni gyd ddeffro i hyn a dallt y crac cos mae o'n gyfle unigryw i chydig o pipl pywer.

anskt

Ankst 023 Ffa Coffi Pawb ' Cymryd y Pys' 12"

Ankst 024 Tŷ Gwydr 'Reu (Mics)' 12" + caset

Ankst 025 Llwybr Llaethog / Tŷ Gwydr / David Edwards

'LL.LL v T.G. MC D. R. E.' caset + record

Ankst 026 Beganifs 'Ffraeth' caset

Ankst 027 Datblygu 'Peel Sessions' caset + record

Ankst 028 Steve Eaves A'i Driawd 'Croendenau' caset + CD

Ankst 029 Geraint Jarman a'r Cynganeddwyr 'Rhiniog' caset + CD

Ankst 030 Y Cyrff 'Mae Ddoe yn Ddoe . . .' caset + CD

Ankst 031 Y Cyrff 'Damwain Mewn Ffatri Cyllyll a Ffyrc' caset

Ankst 032 Datblygu / Llwybr Llaethog & Ifor ap Glyn

'Maes E (Cnwch)' / 'Fydd y Chwyldro Ddim ar y Teledu, Gyfaill' sengl 7"

Ankst 033 WWZZ caset

Ankst 034 Diffiniad caset

Ankst 035 Beganifs 'Aur' caset

Ankst 036 Ffa Coffi Pawb 'Hei Vidal' caset + CD

Gan ddymuno '93 annibynnol i holl gyd-deithwyr y groove.

# Sŵn cerddoriaeth ddoe. Lluniau fideos nawr.

Dim Tei Du
Nos Lun 28 Rhagfyr 8.45pm
Cynhyrchiad Zenith North
ar gyfer S4C



S4C